2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff CF10 4BZ

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw
www.hefcw.ac.uk

# Cylchlythyr | Circular

# Canllawiau i ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2025/26 a 2026/27

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 17 Mai 2024 | |
| **Cyfeirnod:** | W24/07HE | |
| **At:** | Gyrff llywodraethu sefydliadau yng Nghymru sy'n ceisio dod yn sefydliadau rheoleiddiedig ar gyfer blynyddoedd academaidd 2025/26-2026/27. | |
| **Ymateb erbyn:** | Nid oes angen ymateb | |
| **Cyswllt:** | Enw: | Steven Williams |
| | E-bost: | steven.williams@hefcw.ac.uk |

Mae CCAUC yn cyhoeddi'r canllawiau hyn i gefnogi sefydliadau sy'n ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad dwy flynedd. Nod Llywodraeth Cymru yw bod Cynlluniau Ffioedd a Mynediad yn gwneud cyfraniad sylweddol a pharhaus at ehangu mynediad at addysg uwch yng Nghymru, gan gynyddu cyfranogiad, gwella cyfraddau cadw, lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad a gwella deilliannau cyflogaeth ac astudio pellach ar gyfer myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Gwahoddir sefydliadau i gyflwyno cynllun dwy flynedd, 2025/26 i 2026/27, ynghyd â dogfennaeth ategol berthnasol erbyn 10 Mai 2024.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cynnwys

Rhif y dudalen

**Cefndir** .......... **3**

  **Rhagor o wybodaeth a chyngor** .......... 7

**Ffurflen Gais ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad** .......... **7**

**Rhan Un: Gwybodaeth Reoleiddiol** .......... **7**

**Rhan Dau: Cynlluniau Ffioedd a Mynediad** .......... **16**

  **Hyd y Cynllun Ffioedd a Mynediad** .......... 17

  **Tudalen gynnwys** .......... 18

  **Adran 1 - Lefelau ffioedd** .......... 18

  **Adran 2 – Partneriaeth gyda myfyrwyr** .......... 20

  **Adran 3 – Adnabod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol** .......... 21

  **Adran 4 - Amcanion, targedau a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol fel y maent yn berthnasol i gefnogi cyfle cyfartal a hybu Addysg Uwch** .......... 23

**Rhan Tri: Tystiolaeth i CCAUC i ategu'r cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad** .......... **25**

  **Tystiolaeth a data i ategu amcanion y cynllun** .......... 26

  **Tystiolaeth a data i ategu ffocws y cynllun ar grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol** .......... 26

  **Atodiad B – gwybodaeth i ategu'r ffurflen gais ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad** .......... 27

**Sut y bydd CCAUC yn rheoli'r broses Cynlluniau Ffioedd a Mynediad** .......... **33**

  **Cyflwyno** .......... 33

  **Asesiad CCAUC o Gynlluniau Ffioedd a Mynediad** .......... 34

  **Proses CCAUC ar gyfer cymeradwyo a gwrthod Cynlluniau Ffioedd a Mynediad** .......... 35

  **Amrywio Cynllun Ffioedd a Mynediad** .......... 37

  **Monitro cydymffurfiaeth â Chynllun Ffioedd a Mynediad a gwerthuso eu effeithiolrwydd** .......... 38

  **Cydymffurfio parhaus** .......... 38

  **Gwerthuso effeithiolrwydd Cynlluniau Ffioedd a Mynediad** .......... 38

**Asesu effaith ein polisïau** .......... **40**

**Atodiad: Rhwymedigaethau sefydliadau rheoleiddiedig** .......... **42**

**Atodiadau**

Darperir y ffurflen gais ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad mewn dau atodiad:

- Atodiad A - Ffurflen Gais gyda gwybodaeth reoleiddiol a Chynllun Ffioedd a Mynediad (templed Word)
- Atodiad B - Incwm ffioedd, lleoliadau, gwybodaeth ariannol a buddsoddi ffioedd, (templed Excel)

## Cefndir

1. Mae'r canllawiau'n cael eu cyhoeddi i gefnogi sefydliadau sy'n ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad dwy flynedd. Nod Llywodraeth Cymru yw bod Cynlluniau Ffioedd a Mynediad yn gwneud cyfraniad sylweddol a pharhaus at ehangu mynediad at addysg uwch yng Nghymru, gan gynyddu cyfranogiad, gwella cyfraddau cadw, a gwella deilliannau cyflogaeth ac astudio pellach ar gyfer myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

2. Dim ond gan sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac sy'n elusennau y gall ceisiadau am Gynlluniau Ffioedd a Mynediad gael eu gwneud. Rhaid i sefydliadau ddarparu digon o wybodaeth i ddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf hyn, yn ogystal â chyflwyno gwybodaeth am:
    - ansawdd eu haddysg
    - hyfywedd ariannol
    - rheolaeth ar faterion ariannol
    - ymrwymiad i bartneriaeth gyda myfyrwyr
    - grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol y bydd y sefydliad yn eu cefnogi trwy ei fuddsoddiad i wella cyfle cyfartal
    - buddsoddi incwm ffioedd i gyflawni amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer sefydliadau sy'n ymgeisio am y tro cyntaf, ac
    - amcanion y sefydliad i wella cyfle cyfartal neu hybu addysg uwch.

3. Rhaid i Gynlluniau Ffioedd a Mynediad cymeradwy naill ai manylu ar y ffioedd israddedig amser llawn a TAR (SAC) y bydd sefydliadau rheoleiddiedig yn eu codi neu ddarparu ar gyfer penderfynu ffi. Ni all ffioedd fod yn uwch na'r terfynau uchaf ar gyfer ffioedd a nodwyd gan Lywodraeth Cymru[1].

4. Dim ond sefydliadau rheoleiddiedig fydd yn gallu ychwanegu cyrsiau israddedig amser llawn at System Rheoli Cyrsiau (CMS) y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC). Lle darperir addysg uwch ar ran sefydliad rheoleiddiedig, y sefydliad rheoleiddiedig sy'n gyfrifol am gynnwys y cyrsiau hyn ar System Rheoli Cyrsiau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

5. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i sefydliad ei chynnwys wrth gyflwyno cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad, a gwybodaeth am y broses ymgeisio.

### Cyd-destun

6. Ym mis Medi 2022, cafodd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf 2022) gydsyniad brenhinol gan gymeradwyo diddymu CCAUC a sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY). Disgwylir y bydd CCAUC yn cael ei ddiddymu ar 1 Awst 2024 ac y bydd ei staff, asedau, rhwymedigaeth a'r hyn sy'n berthnasol yn trosglwyddo i'r CADY fel corff cyhoeddus newydd a fydd yn gyfrifol am gyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

7. Mae Deddf 2022 yn nodi gofynion am system reoleiddiol newydd ar gyfer yr holl addysg drydyddol yng Nghymru. Y bwriad yw y bydd y system reoleiddiol newydd

---

[1] Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

yn llwyr weithredol yn 2027/28, gyda disgwyl y bydd ceisiadau ar gyfer cofrestr newydd o ddarparwyr addysg uwch yn cael eu cyflwyno yng ngwanwyn 2026. Bydd holl swyddogaethau rheoleiddiol CCAUC, a gwybodaeth reoleiddiol a ddelir gan CCAUC, gan gynnwys mewn perthynas â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad, yn trosglwyddo i'r CADY. Bydd hyn yn rhoi amser i'r CADY ddechrau ysgwyddo cyfrifoldeb am oruchwylio trefniadau rheoleiddiol presennol tra'i fod yn datblygu system reoleiddiol newydd ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru. Hyd nes y'i diddymir, bydd CCAUC yn cadw cyfrifoldeb am ei swyddogaethau dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Deddf 2015).

8. Pan ddiddymir CCAUC, bydd y CADY wedi'i rymuso i gyflawni'r trefniadau rheoleiddiol presennol dan adrannau perthnasol o Ddeddf 2015, Ar adeg diddymu CCAUC a gweithredu'r pwerau rheoleiddiol hyn gan y CADY bydd y canllawiau hyn yn cymryd effaith fel pe baent wedi'u cyhoeddi gan y CADY. Felly, o'r adeg hon, dylid cymryd mai cyfeiriadau at y CADY yw'r rhai at CCAUC.

## <u>Amserlen</u>

9. Rydym yn gwahodd ceisiadau am Gynlluniau Ffioedd a Mynediad i gael eu cyflwyno i CCAUC erbyn **dydd Gwener 10 Mai 2024**. Bydd hyn yn galluogi CCAUC i ystyried ceisiadau ac, o bosibl, cymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad cyn y flwyddyn academaidd nesaf pan all sefydliadau fod yn dymuno hysbysebu ffioedd ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. Os cyflwynir Cynlluniau Ffioedd a Mynediad ar ôl y dyddiad hwn, gall fod risg o oedi gyda phenderfyniadau tan dymor yr hydref. Gall sefydliadau nad ydynt yn darparu digon o wybodaeth neu'n ymateb i geisiadau pellach am wybodaeth greu risg hefyd y bydd oedi gyda phenderfyniadau ynghylch eu ceisiadau tan dymor yr hydref.

10. Rhaid i sefydliadau sy'n cyflwyno Cynlluniau Ffioedd a Mynediad gwblhau'r ffurflen gais a atodwyd yn **Atodiad A** ynghyd â'r wybodaeth ategol y gofynnir amdani yn **Atodiad B**.

11. Bydd CCAUC yn ystyried pob cais yn unol â'r canllawiau hyn. Dylid cyflwyno ceisiadau i CCAUC trwy gyfleuster lanlwytho diogel CCAUC.

12. Cyrff llywodraethu sefydliadau sy'n ymgeisio am Gynlluniau Ffioedd a Mynediad sy'n gyfrifol am y ceisiadau a gyflwynir i CCAUC ac, os cânt eu cymeradwyo gan CCAUC, am gydymffurfio â gofynion y system reoleiddiol yng Nghymru, fel a nodir yn yr **Atodiad**.

## <u>Ymgeiswyr am y tro cyntaf</u>

13. Dylai pob sefydliad sy'n ystyried ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad am y tro cyntaf gysylltu â CCAUC cyn cyflwyno cais, os nad ydynt wedi gwneud hynny'n barod. Caiff y broses ar gyfer hyn ei disgrifio ar ein gwefan, Hysbysiad o fwriad i gyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad.

## <u>Deddfwriaeth a dogfennau polisi</u>

14. Goleuir y canllawiau hyn gan y canlynol:

- Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Deddf 2015), nodiadau esboniadol, a Rheoliadau cysylltiedig[2]
- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar baratoi i gyflawni'r system reoleiddiol newydd
- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar baratoi i roi'r system reoleiddiol newydd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru ar waith yn llawn
- Canllawiau Llywodraeth Cymru i CCAUC ar Gynlluniau Ffioedd a Mynediad, a
- Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, sy'n darparu ar gyfer diddymu CCAUC ac yn sefydlu corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

15. Datblygwyd canllawiau CCAUC ar Gynlluniau Ffioedd a Mynediad gan ystyried:
    - y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)
    - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) (2011)
    - Deddf yr Amgylchedd (2016)
    - Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (2017)
    - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)
    - Strategaeth Gorfforaethol CCAUC (2021), a
    - Datganiad Llesiant CCAUC (2021).

16. Dylai sefydliadau sy'n ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad ystyried y cyhoeddiadau canlynol gan CCAUC wrth gwblhau eu cais:
    - Strategaeth Gorfforaethol (2021)
    - Llythyrau cylch gwaith at CCAUC gan Lywodraeth Cymru,
    - Cynllun Cydraddoldeb Strategol
    - Mesurau cenedlaethol CCAUC
    - Datganiad Ymyrryd
    - Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru
    - Datganiad Polisi Iechyd a Llesiant mewn Addysg Uwch CCAUC
    - Safonau'r Gymraeg: Cynllun Cyflawni (2023)
    - Cod Rheolaeth Ariannol
    - Adolygiad Advance HE o fframweithiau gwerthuso Cynlluniau Ffioedd a Mynediad
    - Canllawiau'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach, a hefyd
    - Canllawiau ar Drefniadau Partneriaeth ar gyfer Addysg Freiniol a Ddarperir ar Ran Sefydliadau Rheoleiddiedig yng Nghymru (y cyfeirir atynt yn y canllawiau hyn fel Canllawiau ar Drefniadau Partneriaeth).

## Strategaeth Gorfforaethol

17. Mae Strategaeth Gorfforaethol CCAUC yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer addysg uwch yng Nghymru ac yn egluro diben CCAUC o ran rheoleiddio, cyllido a

[2] Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) (Diwygio) 2016; Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015; Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015; Rheoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru) 2015; Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015; Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau, Gweithdrefn a Chyhoeddi) (Cymru) 2016.

dylanwadu ar ddarparwyr addysg uwch er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno. Mae'r broses Cynllunio Ffioedd a Mynediad yn un o'r mecanweithiau allweddol i gyflawni Strategaeth Gorfforaethol CCAUC a dangos ymrwymiad i nodau Cenedlaethau'r Dyfodol. Disgwylir i'r CADY gyflwyno ei Gynllun Strategol cyntaf erbyn mis Rhagfyr 2024 a hwnnw wedi'i oleuo gan Ddatganiad y Gweinidog o Flaenoriaethau Strategol ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac Arloesi. Rydym yn cydnabod na fydd hi'n bosibl i sefydliadau gymryd Cynllun Strategol y CADY i ystyriaeth wrth gyflwyno'u Cynllun Ffioedd a Mynediad ond dylai darparwyr roi ystyriaeth ddyladwy i'r Datganiad o Flaenoriaethau.

**Prevent**

18. Bydd sefydliadau sydd â Chynllun Ffioedd a Mynediad a gymeradwywyd gan CCAUC yn cael eu dosbarthu'n gorff addysg uwch perthnasol a bydd angen ar unwaith iddynt gydymffurfio â deddfwriaeth y Ddyletswydd Prevent, os nad ydynt yn gwneud hynny yn barod. Mae sefydliadau sydd â'u pencadlys yng Nghymru'n dod o dan awdurdod monitro CCAUC. Yr unig eithriadau yng Nghymru yw sefydliadau addysg bellach sydd eisoes yn cael eu harolygu gan Estyn, gan gynnwys mewn perthynas â diogelu a chydymffurfio â'r Ddyletswydd Prevent.[3] Mae cylchlythyr Fframwaith Monitro CCAUC W19/25HE yn nodi sut y mae CCAUC yn monitro'r modd y mae darparwyr yn gweithredu'r Ddyletswydd Prevent statudol. Mae angen i gyrff addysg uwch perthnasol ddilyn y fframwaith hwn i ddangos ystyriaeth ddyladwy i'r ddyletswydd. Mae disgwyl i'r CADY barhau â'r trefniadau monitro hyn. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â prevent@hefcw.ac.uk. Bydd y manylion cyswllt hyn yn cael eu disodli gan y rhai ar gyfer y CADY o 1 Awst 2024, a bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu unwaith y byddant ar gael.

**Dynodi cyrsiau eraill**

19. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud dim ond â chymorth i fyfyrwyr israddedig amser llawn a TAR (SAC). Mae'r holl sefydliadau a gyllidir gan Gymru[4] yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr lle mae cyrsiau israddedig rhan-amser, ôl-radd amser llawn a rhan-amser, a doethurol yn y cwestiwn.

20. Gall darparwyr addysg uwch sydd naill ai'n methu, neu'n dewis peidio, â gwneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad wneud cais i'w cyrsiau israddedig amser llawn a TAR (SAC) gael eu dynodi'n benodol ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru 'fesul cwrs unigol'. Hefyd, gall darparwyr nad ydynt yn cael cyllid cyhoeddus ac sy'n dymuno i'w cyrsiau rhan-amser neu ôl-radd gael eu dynodi ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru wneud cais iddynt gael eu dynodi'n benodol 'fesul cwrs unigol'. I gael rhagor o wybodaeth am y broses dynodi'n benodol, cysylltwch â regulationadvice@hefcw.ac.uk. Dylai sefydliadau drafod trefniadau dynodi cyrsiau ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o rannau eraill o'r DU gyda gweinyddiaethau perthnasol yn y DU. Bydd y manylion cyswllt hyn yn cael eu disodli gan y rhai ar gyfer y CADY o 1 Awst 2024, a bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu unwaith y byddant ar gael.

[3] Bydd darparwyr sydd heb bencadlys yng Nghymru'n cael eu monitro gan yr awdurdod perthnasol yn y wlad honno.
[4] Mae sefydliad a gyllidir gan Gymru'n golygu sefydliad yn y Deyrnas Unedig a gynhelir neu a gynorthwyir gan grantiau cylchol allan o arian a ddarperir gan Weinidogion Cymru.

## Rhagor o wybodaeth a chyngor

21. Dylai unrhyw sefydliad sy'n dymuno trafod y broses ar gyfer gwneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad, neu unrhyw agwedd arall ar ein swyddogaethau rheoleiddiol, anfon ymholiadau trwy'r e-bost i regulationadvice@hefcw.ac.uk. Bydd y manylion cyswllt hyn yn cael eu disodli gan y rhai ar gyfer y CADY o 1 Awst 2024, a bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu unwaith y byddant ar gael. Rhaid i sefydliadau sy'n cyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad am y tro cyntaf gysylltu â CCAUC cyn cyflwyno un.

## Ffurflen Gais ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad

22. Mae'n rhaid i'r sefydliad sy'n gwneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad gwblhau'r ffurflen gais sydd wedi'i hatodi yn **Atodiad A** a darparu gwybodaeth atodol mewn taenlen Excel sydd wedi'i hatodi yn **Atodiad B**. Mae'r ffurflen gais wedi'i rhannu'n dair rhan, ac mae pob rhan wedi'i hisrannu'n adrannau gwahanol.

23. Mae'r canllawiau hyn yn diffinio pob adran o'r ffurflen gais ac yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer y sefydliad sy'n cwblhau'r ffurflen gais.

24. Rhaid i bob cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad gynnwys enw'r sefydliad a rhif cofrestru'r sefydliad fel darparwr yn y DU (UKPRN).

25. Wrth gyflwyno cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad, rhaid i'r corff llywodraethu enwi'r cysylltiadau o fewn y sefydliad sy'n atebol i'r corff llywodraethu am reoli'r cais hwnnw. Ceir lle ar y ffurflen gais i nodi dau gyswllt o fewn y sefydliad. Rydym yn disgwyl i'r corff llywodraethu enwebu aelod o uwch dîm rheoli'r sefydliad, megis Dirprwy Is-ganghellor neu Bennaeth Cynorthwyol, i weithredu fel cyswllt arweiniol y sefydliad. Bydd pob gohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r cais yn cael ei hanfon at y cyswllt hwn. Dylid enwi cyswllt arall o fewn y sefydliad hefyd er mwyn sicrhau bod gohebiaeth sy'n gysylltiedig â cheisiadau'n dod i law ac yn cael ei phrosesu'n brydlon. Byddem yn disgwyl mai uwch aelod o dîm cynllunio yw hwn.

# Rhan Un: Gwybodaeth Reoleiddiol

26. Mae'n ofynnol i'r sefydliad sy'n ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad gyflwyno gwybodaeth i ddangos ei fod yn gymwys i wneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad.

27. Mae'n ofynnol i ni gael tystiolaeth sy'n dangos bod y sefydliad:
    - yn sefydliad
    - wedi'i leoli'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru
    - yn darparu addysg uwch
    - yn elusen
    - yn ariannol hyfyw
    - yn cael ei reoli'n dda yn ariannol, ac
    - yn darparu addysg o ansawdd.

28. Lle mae CCAUC [5] yn meddu ar wybodaeth ddigonol, gyfoes, bydd yn ei defnyddio. Gall y sefydliad hefyd gyflwyno gwybodaeth newydd, ychwanegol neu fwy diweddar i oleuo'r prosesau asesu. Lle nad oes gan CCAUC ddigon o wybodaeth neu ddata cyfoes, mae'n ofynnol i'r sefydliad ddarparu hyn i ategu ei geisiadau. Dylai'r holl ddata a gyflwynir fel tystiolaeth fod y data mwyaf cyfredol, dilysadwy.

29. Ceidw CCAUC yr hawl i ymweld â'r sefydliad er mwyn cael dealltwriaeth well am gymhwystra sy'n gysylltiedig â threfnu a rheoli materion ariannol ac ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, y sefydliad lle nad yw gwybodaeth yn glir neu lle mae'n annigonol.

30. Mae'r wybodaeth a gyflwynir i CCAUC yn **rhan un** er gwybodaeth i ni yn unig ac nid yw'n ofynnol i'r sefydliad ei chyhoeddi.

## Adran 1: A yw'r ymgeisydd am Gynllun Ffioedd a Mynediad yn sefydliad?

31. Nid yw Deddf 2015 yn diffinio'r term 'sefydliad' yn benodol. Mae'r canlynol yn cael eu hystyried yn sefydliadau gan Lywodraeth Cymru:
   - prifysgolion a ffurfiwyd trwy Siarter Frenhinol
   - Corfforaethau Addysg Uwch
   - Corfforaethau Addysg Bellach, a
   - chyrff sy'n hyfforddi aelodau o'r gweithlu addysg.

32. Rhaid i'r ymgeisydd am Gynllun Ffioedd a Mynediad gadarnhau ei fod yn un o'r mathau hyn o sefydliad. Os yw'r sefydliad yn un o'r mathau hyn o sefydliad, dylai gysylltu â'r ddogfennaeth sy'n dangos tystiolaeth o hyn neu gyflwyno'r wybodaeth hon os nad yw ar gael yn gyhoeddus.

33. Os nad yw'r ymgeisydd am Gynllun Ffioedd a Mynediad yn sefydliad o fath a restrir ym mharagraff 31, rhaid iddo gyflwyno cais i Lywodraeth Cymru i gael ei ddynodi'n sefydliad at ddibenion y Ddeddf cyn cyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad.

34. Os gwrthodir dynodi'r ymgeisydd am Gynllun Ffioedd a Mynediad yn sefydliad at ddibenion y Ddeddf, ni fydd CCAUC yn gallu cymeradwyo cais y sefydliad am Gynllun Ffioedd a Mynediad.

## Adran 2: A yw'r sefydliad wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru?

35. Byddwn yn ystyried bod y sefydliad yng Nghymru trwy ystyried ystod o dystiolaeth fel a nodir yn y canllawiau.

36. Rhaid i'r sefydliad restru ei brif gyfeiriadau a'i gyfeiriadau cyfreithiol, lle maent yn wahanol, ac unrhyw enwau eraill y mae'r sefydliad yn gweithredu oddi tanynt.

37. Yn ogystal â'r wybodaeth hon, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad restru lleoliadau'r holl weithgareddau dysgu ac addysgu lle mae gan y sefydliad fuddiant, gan gynnwys lleoliadau yng Nghymru, gweddill y DU a thramor. Dylai

[5] Bydd y CADY yn cael ei alluogi i ddal gwybodaeth a data a ddelir gan CCAUC ar hyn o bryd. Bydd gwybodaeth a data a ddelir gan CCAUC yn cael eu trosglwyddo i'r CADY cyn diddymu CCAUC.

hyn gynnwys trefniadau lle mae darpariaeth ôl-radd a addysgir neu ymchwil ôl-radd yn cael ei rhoi ar ran sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Ar gyfer pob lleoliad lle mae'r sefydliad yn darparu gweithgareddau dysgu ac addysgu, rhaid i'r sefydliad gynnwys nifer y myfyrwyr ar gyrsiau ym mhob lleoliad. Dylai'r sefydliad ddarparu'r wybodaeth hon yn y Tabl 'Lleoliadau' yn **Atodiad B**.[6] Mae CCAUC wedi gofyn am wybodaeth ar wahân am drefniadau partneriaeth ddoethurol, ac felly nid oes angen cynnwys yr wybodaeth hon yn Atodiad B.

## Adran 3: A yw'r sefydliad yn darparu addysg uwch (AU)?

38. Rhaid i'r sefydliad allu dangos ei fod yn darparu addysg uwch, fel y'i rhestrir yn Atodlen 6 wrth Ddeddf Diwygio Addysg 1988, ni waeth beth fo'r dull astudio.

39. Os nad yw’r sefydliad yn tanysgrifio i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), rhaid iddo ddarparu disgrifiad o'r addysg uwch y mae'n ei darparu ac, ar wahân, niferoedd y myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru sy'n dilyn y cyrsiau addysg uwch ar ddyddiad y cais ac am dair blynedd cyn hynny. Os yw’r sefydliad yn tanysgrifio i HESA, yna nid oes angen iddo ddarparu'r wybodaeth hon a dylai adael yr adran o’r ffurflen gais sy’n gofyn am yr wybodaeth hon yn wag. Os oedd y sefydliad wedi dychwelyd gwybodaeth am fyfyrwyr yn flaenorol trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR), gall CCAUC ddefnyddio gwybodaeth hanesyddol o'r cofnod hwnnw.

40. Rhaid i'r sefydliad fod â rheolaeth dros ei gyrsiau cymwys h.y. ei gyrsiau israddedig amser llawn a TAR (SAC). Mae'r ffactorau wrth asesu rheolaeth yn cynnwys pa un a oes gan y sefydliad gyfrifoldeb am gynnwys a darparu’r cwrs/cyrsiau cymwys ar y cyfan, trefniadau asesu ansawdd a chyfrifoldebau cytundebol i'r myfyriwr. Bydd CCAUC yn ystyried sut y mae'r ddau barti’n diffinio hyn, ond yn y pen draw mater i CCAUC yw penderfynu a yw'r ddarpariaeth yn cael ei rhoi gan, neu ar ran, y sefydliad.

41. Bernir bod gan sefydliad reolaeth dros y cwrs os yw’r canlynol yn wir:
   - os mai’r sefydliad yw’r corff dyfarnu a’i fod naill ai'n darparu'r cyrsiau cymwys ei hun neu fod y cyrsiau cymwys yn cael eu darparu ar ei ran o dan drefniadau is-gontractio
   - os yw’r sefydliad yn darparu'r cyrsiau cymwys o dan drefniant dilysu gyda phrifysgol, neu
   - os yw’r sefydliad yn darparu'r cyrsiau cymwys a ddyfernir gan naill ai Pearson neu Awdurdod Cymwysterau'r Alban.

42. Bernir nad oes gan y sefydliad reolaeth dros y cwrs os yw'n darparu'r cwrs hwnnw ar ran sefydliad arall o dan gytundeb is-gontractio megis cytundeb breinio.

43. Bydd sefyllfaoedd lle mae'r sefydliad yn darparu addysg uwch yn uniongyrchol ac yn darparu addysg uwch ar wahân ar ran sefydliad arall. Yn y sefyllfaoedd hyn, dim ond y cyrsiau y mae'n eu darparu'n uniongyrchol ddylai gael eu cynnwys mewn Cynllun Ffioedd a Mynediad. Cyfrifoldeb y sefydliad dyfarnu yw'r cyrsiau y mae'n eu darparu o dan drefniadau is-gontractio ac maent yn dod o dan gyfrifoldeb rheoleiddiol y sefydliad hwnnw.

[6] Ceir canllawiau ynghylch cwblhau Atodiad B ym mharagraffau 145 i 183.

44. Efallai y bydd gan y sefydliad gyrsiau israddedig amser llawn a ddarperir ar ei ran o dan drefniadau is-gontractio. Ni fernir bod partneriaid is-gontractio'n gyfrifol am gynnwys a darparu'r cwrs cymwys ar y cyfan. O ganlyniad, daw'r cyrsiau hyn o fewn cwmpas Cynllun Ffioedd a Mynediad y sefydliad ac fe'u dynodir ar gyfer cymorth i fyfyrwyr dim ond pan fo'r corff partner, sy'n cyflwyno'r cwrs, yn endid cyfreithiol ar wahân ac yn elusen. Efallai na fydd cwrs a ddarperir gan ddarparwr, o dan drefniadau is-gontractio, nad yw'n elusen nac yn endid cyfreithiol ar wahân yn perthyn o fewn cwmpas Cynllun Ffioedd a Mynediad ac efallai na fydd yn cael ei ddynodi.

45. Os oes ar y sefydliad sy'n ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad eisiau i gyrsiau addysg uwch a ddarperir yn ei is-sefydliadau ddod o fewn cwmpas ei Gynllun Ffioedd a Mynediad, bydd angen iddo gadarnhau bod cytundebau ar waith i is-sefydliadau ddarparu addysg ar ei ran. Dylai'r cytundebau hyn fod rhwng corff llywodraethu'r rhiant-sefydliad a'r is-sefydliad.

46. Os yw'r sefydliad sy'n ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad yn is-sefydliad i riant-sefydliad ac yn endid cyfreithiol ar wahân i'r rhiant-sefydliad hwnnw, bydd angen iddo ddangos tystiolaeth bod ganddo reolaeth dros y cyrsiau trwy gyflwyno cytundebau gyda'r sefydliad dyfarnu perthnasol i CCAUC. Bydd yn rhaid i'r is-sefydliad ddangos ei fod yn ateb y gofynion o ran bod yn sefydliad drwy ei hawl ei hun.

47. Er mwyn asesu pa un a oes gan y sefydliad reolaeth dros y cwrs mae CCAUC yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad naill ai:
   - cadarnhau bod y cyrsiau cymwys sydd o fewn cwmpas y Cynllun Ffioedd a Mynediad yn arwain at gymwysterau y mae'r sefydliad yn eu dyfarnu ei hun, neu
   - enwi'r sefydliad sy'n dyfarnu'r cymwysterau ar gyfer y cyrsiau y mae'n eu darparu ynghyd â'r ddogfennaeth berthnasol gan y sefydliad dyfarnu i brofi hynny. Disgwyliwn i'r holl ddogfennaeth ddangos tystiolaeth o natur y berthynas h.y. dilysu neu freinio,

48. Rhaid i gyrsiau cymwys gael eu dilysu gan gorff dyfarnu priodol:
   - prifysgol sydd ar orchymyn cyrff sy'n cael eu cydnabod Gweinidogion Cymru
   - Pearson, ac
   - Awdurdod Cymwysterau'r Alban.

## Adran 4: A yw'r sefydliad yn elusen?

49. Rhaid i'r sefydliad sy'n gwneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad fod yn elusen a rhaid cadarnhau hyn yn y cais ynghyd â rhif cofrestru elusen y sefydliad (lle y bo'n berthnasol) ac enw a chyfeiriad ei reoleiddiwr elusennau.

50. Mae pob Prifysgol Siartredig yng Nghymru a phob Corfforaeth Addysg Uwch yng Nghymru yn elusennau cofrestredig. Mae pob Corfforaeth Addysg Bellach yn elusennau eithriedig.

51. Os nad yw'r sefydliad wedi'i gofrestru gyda rheoleiddiwr elusennau, rhaid iddo ddarparu rhesymau dros hyn, ynghyd â chopi o'i ddogfen lywodraethu.

52. Pan fo cyrsiau cymwys sydd o fewn cwmpas y Cynllun Ffioedd a Mynediad yn cael eu darparu ar ran y sefydliad, yna rhaid i'r sefydliad gadarnhau bod pob darparwr sy'n darparu'r cyrsiau cymwys ar ei ran yn elusen. Bydd hyn yn cael ei gofnodi yn y Tabl 'Lleoliadau' yn **Atodiad B**[7]. Os nad elusen yw'r sefydliad hwnnw, yna ni fydd y cyrsiau hynny wedi'u dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr.

## Adran 5: A yw'r sefydliad yn ariannol hyfyw?

53. Rhaid i'r sefydliad ddarparu gwybodaeth i CCAUC am ei hyfywedd ariannol, gan gynnwys tystiolaeth ei fod yn gynaliadwy dros y tymor canolig. Dylai'r dystiolaeth fod yn ddigon i roi hyder rhesymol i CCAUC na fydd myfyrwyr mewn perygl o fethu â chwblhau ei gyrsiau o ganlyniad i fethiant ariannol.

54. Bydd asesiad CCAUC o berfformiad a chynaliadwyedd ariannol y sefydliad yn ddyfarniad cyffredinol sydd hefyd yn ystyried cyd-destun sefyllfa ariannol y sefydliad a'i gynllun strategol.

55. Dylai'r sefydliad ddarparu manylion llawn yn ei gais sy'n disgrifio strwythur ei grŵp corfforaethol, gan gynnwys manylion holl gwmnïau neu sefydliadau'r grŵp, gan gynnwys is-gwmnïau/is-sefydliadau, rhiant-gwmnïau/cwmnïau daliannol a mentrau cysylltiol neu ar y cyd.

56. Fel y bo'n briodol, gall yr asesiad o hyfywedd ariannol ystyried trefniadau ariannol unrhyw strwythur grŵp (gan gynnwys is-gwmnïau neu is-sefydliadau, rhiant-gwmnïau rhiant/cwmnïau daliannol, neu fentrau cysylltiol a/neu ar y cyd) lle ystyrir bod hynny'n berthnasol i ddangos hyfywedd ariannol y grŵp cyfan.

57. Rhaid sicrhau bod strategaeth ariannol sy'n adlewyrchu'r cynllun strategol ar y cyfan ar gael ar adeg cyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad, a honno'n nodi meincnodau a dangosyddion perfformiad priodol, yn dangos sut y bydd adnoddau'n cael eu defnyddio, a sut y bydd gweithgareddau a seilwaith yn cael eu cyllido. Dylai hyn gynnwys sut y mae'r sefydliad yn asesu ac yn adolygu ei gynaliadwyedd, gan gynnwys defnyddio asesiadau o gynaliadwyedd.

58. Mae gweddill yr wybodaeth sy'n ofynnol yn dibynnu ar berthynas CCAUC â'r sefydliad sy'n ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad.

### Sefydliadau addysg uwch a reoleiddir gan CCAUC

59. Fel rhan o'u dyletswyddau rheoleiddiol, mae'n ofynnol i'r sefydliad gyflwyno gwybodaeth am ragolygon yn flynyddol. Mae'r templed ar gyfer rhagolygon ariannol a'r templed niferoedd myfyrwyr ategol yn cwmpasu sefyllfa ariannol amcangyfrifedig y flwyddyn bresennol ynghyd â thair blynedd o ragolygon. Cyflwynir y rhain ynghyd â naratif ategol a symudiadau misol mewn llifoedd arian parod tan ddiwedd y flwyddyn academaidd ganlynol. Ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, y cais diweddaraf am ragolygon, sy'n cynnwys y templedi gwag, cylchlythyr Ceisiadau am Ragolygon 2023 CCAUC (W23/11HE).

[7] Ceir canllawiau ynghylch cwblhau Atodiad B ym mharagraffau 145 i 183.

**Sefydliadau addysg uwch nas rheoleiddir gan CCAUC**

60. Rhaid i'r sefydliad ddarparu gwybodaeth, sy'n dangos:
- **Perfformiad hanesyddol -** hanes o berfformiad ariannol y dangosir tystiolaeth ohono gan adroddiadau blynyddol a datganiadau ariannol a archwiliwyd yn allanol am y tair blynedd cyn y cais. Rhaid i'r cyfrifon gael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig. Ni ddylai hwn fod yr un cwmni a/neu unigolyn a baratôdd y cyfrifon, er mwyn sicrhau y gellir bod â hyder llawn yn yr archwiliad. Sail y cyfrifon fydd Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (UK GAAP) (neu ofynion olynol) neu’r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), os yn briodol.
- **Rhagolygon – rhaid i'r sefydliad ddarparu rhagolygon sy'n cynnwys cyfrif incwm a gwariant, mantolen a datganiad llifoedd arian parod.** Rhaid i ragolygon gwmpasu'r amcangyfrifon ar gyfer y flwyddyn gyfredol ynghyd â rhagolygon am dair blynedd o leiaf, gan gael eu hategu gan warant rhiant-gwmni os oes angen, sy'n dangos bod ganddynt:
  - lif arian parod digonol i aros yn hydal, hynny yw, digon o hylifedd i dalu dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus, a
  - mantolen ddigonol sy'n cynnal sefyllfa cyfanswm asedau net fel na fyddent yn ysgwyddo diffygion pe bai'r rhain yn arwain at sefyllfa cyfanswm rhwymedigaethau net. Dylai'r rhagolygon ariannol llawn gynnwys y flwyddyn gyfredol (2023/24) a'r tair blynedd ganlynol h.y. hyd at a chan gynnwys 2026/27. Dylai'r dystiolaeth gynnwys sylwebaeth ar y rhagdybiaethau sy'n cael eu gwneud a sut y mae unrhyw risgiau ariannol yn cael eu rheoli.

61. Lle mae'r sefydliad yn goleg, yna gall gyflwyno'r wybodaeth am ragolygon y mae'n ei darparu i Lywodraeth Cymru.

**Adran 6: A yw materion ariannol y sefydliad yn cael eu rheoli'n dda?**

62. Bydd angen i'r sefydliad ddarparu tystiolaeth ei fod yn cael ei reoli'n dda gydag arferion rheoli cadarn ar waith a'r gallu i ddatblygu yn unol â'i gynllun strategol a'r strategaeth ariannol sy'n ategu ei Gynllun Ffioedd a Mynediad. Lle mae'r sefydliad eisoes wedi cyflwyno'r dystiolaeth hon i CCAUC, cyfeiriwch at hyn lle y bo'n berthnasol yn y ffurflen gais os gwelwch yn dda, mewn perthynas ag enw'r ffeil a ddarparwyd.

63. Rhaid i'r sefydliad ddarparu gwybodaeth i ddangos ei fod:
- yn meddu ar brosesau rheolaeth ariannol sy'n cael eu llywodraethu'n dda ac yn cael eu rheoli'n ddigonol ac yn effeithiol
- yn cynllunio a rheoli gweithgareddau i aros yn hyfyw
- yn meddu ar systemau cadarn a chynhwysfawr ar gyfer rheoli risgiau a rheolaeth fewnol
- yn meddu ar drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli a sicrhau ansawdd data a ddefnyddir i wneud penderfyniadau’n fewnol
- yn meddu ar wybodaeth reolaidd, ddibynadwy, amserol a digonol i fonitro perfformiad gweithredol ac ariannol
- yn adrodd ar wybodaeth yn rheolaidd, yn gynhwysfawr ac yn gywir wrth uwch reolwyr priodol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu
- yn rheoli ei ystâd mewn ffordd gynaliadwy yn unol â strategaeth ystadau

- yn gallu ateb yr holl ofynion angenrheidiol o ran cipio data ac adrodd arno ar gyfer CCAUC, gan gynnwys y rhai a weinyddir gan HESA a chyrff eraill fel sy'n ofynnol gan CCAUC. Mae enghreifftiau'n cynnwys:
    - adroddiad yr archwiliad mewnol diweddaraf o systemau a phrosesau data,
    - arolwg blynyddol HESES,
    - data a ddarperir i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru,
    - data myfyrwyr, cyrchfan myfyrwyr, staff, ystadau, cyllid a rhyngweithiad busnes a chymuned a ddarperir i HESA, a hefyd
    - y ffurflen sicrwydd flynyddol.

64. Wrth asesu'r galluoedd rheoli data rhoddir ystyriaeth, lle y bo’n berthnasol, i hanes y sefydliad o gyflwyno data i CCAUC neu gyrff eraill gan gynnwys HESA, Llywodraeth Cymru a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a’r modd y mae’n cydymffurfio â'r cod ymarfer ar gyfer casgliadau data addysg uwch wrth baratoi data i'w gyflwyno.

65. Rhaid i'r sefydliad ddarparu tystiolaeth y gall gydymffurfio ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Addysg Uwch[8] a chyd-fynd â'r argymhellion yn yr Adolygiad o Lywodraethu'r Prifysgolion yng Nghymru[9]. Fel arall, gellid dangos tystiolaeth o ymlynu wrth egwyddorion llywodraethu amgen sydd yr un mor gadarn megis Cod Llywodraethu Da Colegau Cymru ar gyfer Colegau yng Nghymru[10], lle y bo'n berthnasol. Mae CCAUC yn cydnabod bod y Cod yn wirfoddol ac efallai y bydd y sefydliad yn gallu cymhwyso arferion llywodraethu amgen i gyflawni deilliannau tebyg. Fodd bynnag, mae CCAUC o'r farn bod egwyddorion a deilliannau bwriadedig (y cyfeirir atynt fel 'yr Elfennau') y Cod yn gadarn. Lle nad yw'n bosibl dangos y cydymffurfir â'r Cod, bydd CCAUC yn gofyn am esboniad sy'n disgrifio trefniadau amgen yr un mor gadarn sydd ar waith neu sy'n dangos bod seiliau priodol a rhesymol dros beidio ag ymlynu wrth y Cod. Rhaid rhoi'r esboniad hwn yn adroddiad blynyddol y sefydliad. Rhaid i'r esboniad ddisgrifio'r gweithdrefnau llywodraethu amgen a fabwysiadwyd yn lle'r rhai a argymhellir gan y codau.

66. Os nad yw'r sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Addysg Uwch, dylai drafod gyda CCAUC, cyn ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad, sut y gallai ddarparu tystiolaeth o drefniadau amgen sydd yr un mor gadarn.

67. Bydd angen i'r sefydliad ystyried yr holl ganllawiau perthnasol ynghylch cyfrifoldebau ymddiriedolwyr ac ymddiriedolaeth effeithiol. Mae’r canllawiau hyn ar gael ar wefan y Comisiwn Elusennau.

68. Rhaid i'r sefydliad ddarparu tystiolaeth ei fod:
- yn cydymffurfio â'r gofynion statudol sy'n ymwneud ag archwilio allanol, ac
- wedi’i berchnogi, yn cael ei reoli ac yn cael ei redeg gan 'bersonau addas a phriodol' trwy ddarparu:
    - tystiolaeth o hunaniaeth ei sefydliad a hunaniaeth unigolion allweddol (er enghraifft, y Corff Llywodraethu, yr Is-Ganghellor, y Pennaeth, cyfarwyddwyr, cyfranddalwyr, ymddiriedolwyr), ynghyd â'u sgiliau a'u profiad, a hefyd

[8] Cod Llywodraethu Addysg Uwch (Y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion) Medi 2020
[9] Adolygiad o Lywodraethu'r Prifysgolion yng Nghymru (Gillian Camm) Rhagfyr 2019
[10] Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru (Colegau Cymru) 2016

- cadarnhad bod cyfarwyddwyr / ymddiriedolwyr (fel y bo'n berthnasol) yn gymwys i weithredu fel cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr ac nad ydynt wedi cael eu hanghymhwyso rhag gweithredu fel cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr.

## Adran 7: A yw'r addysg a ddarperir gan ac ar ran y sefydliad yn ddigonol i ddiwallu anghenion myfyrwyr?

69. Mae CCAUC yn gyfrifol am asesu neu wneud trefniadau ar gyfer asesu ansawdd yr holl addysg a ddarperir gan ac ar ran sefydliadau rheoleiddiedig. Ystyrir bod addysg a ddarperir y tu allan i Gymru yn cael ei darparu yng Nghymru os yw'n cael ei darparu fel rhan o gwrs a ddarperir yn bennaf yng Nghymru. Bydd angen i'r sefydliad sy'n ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad ddangos tystiolaeth bod ansawdd yr holl addysg y mae'n ei darparu (nid dim ond ansawdd ei gyrsiau addysg uwch cymwys) yn ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n cael yr addysg neu'n gwneud y cwrs.

70. Ar hyn o bryd, ystyrir bod yr anghenion rhesymol ar gyfer ansawdd addysg uwch yn cael eu diwallu os yw'r sefydliad wedi cael barnau boddhaol mewn adolygiad sicrhau ansawdd allanol sy'n bodloni'r safonau a nodwyd gan CCAUC.[11] Mae'r barnau hyn yn sicrhau bod y broses sicrhau ansawdd yn drylwyr. Ym mhob achos, ystyrir bod sefydliad nad yw'n cael barn ei fod yn 'cyrraedd' y safonau neu farn gyfwerth yn sefydliad, neu mewn perygl o fod yn sefydliad, sydd ag ansawdd annigonol. Ystyrir bod yr anghenion rhesymol ar gyfer darpariaeth addysg nad yw'n addysg uwch yn cael eu diwallu os yw'r sefydliad yn cael adolygiad/arolygiad llwyddiannus gan y corff priodol sy'n gyfrifol am safonau ansawdd y ddarpariaeth honno (e.e. Estyn, Pearson, ac ati). Bydd angen i dystiolaeth adolygu allanol gael ei hategu hefyd gan wybodaeth ychwanegol sy'n rhoi sicrwydd parhaus bod ansawdd addysg yn parhau i fod yn ddigonol.

71. Ar gyfer ceisiadau am Gynllun Ffioedd a Mynediad, rhaid i'r sefydliad ddarparu'r canlynol **i gyd**:
   - Cadarnhad bod ganddo weithdrefnau asesu ansawdd mewnol ar gyfer ei holl ddarpariaeth addysg – boed honno'n cael ei darparu gan neu ar ran sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddarpariaeth addysg uwch (gan gynnwys cyrsiau cymwys a chyrsiau nad ydynt yn gymwys megis astudio'n rhan-amser a phrentisiaethau), a darpariaeth addysg nad yw'n addysg uwch, e.e. addysg ysgol, addysg bellach neu broffesiynol. Mae'n cynnwys addysg a ddarperir gan y sefydliad neu ar ei ran trwy ddarparwyr eraill o dan gytundebau is-gontractio.
   - Cadarnhad a thystiolaeth bod ei holl ddarpariaeth addysg uwch, gan gynnwys addysg uwch a ddarperir ar ei ran (e.e. darpariaeth freiniol), wedi cael barnau boddhaol mewn adolygiad sicrhau ansawdd allanol perthnasol. Os yw'r sefydliad yn ceisio dod yn sefydliad rheoleiddiedig am y tro cyntaf, rhaid iddo ddangos ei fod wedi llwyddo mewn dau adolygiad gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) bedair blynedd ar wahân i'w gilydd, a'r diweddaraf o'r rheiny'n *Adolygiad Ansawdd Porth – Cymru*. Os yw'r sefydliad yn cael ei reoleiddio ar hyn o bryd, rhaid iddo ddangos ei fod wedi llwyddo mewn *Adolygiad Addysg Uwch: Cymru*, *Adolygiad Gwella Ansawdd* neu broses adolygiad asesu ansawdd allanol

[11] Gweler yr wybodaeth a ddarperir ar dudalennau gwe ansawdd CCAUC.

cyfatebol, fel arfer o fewn y chwe blynedd ddiwethaf. Yn y flwyddyn yn union ar ôl adolygiad, os yw sefydliadau rheoleiddiedig presennol wrthi'n gweithio trwy ganlyniad adolygiad i fynd i'r afael â materion a ddeilliodd o ganlyniad llai na chwbl foddhaol, rydym yn disgwyl iddynt nodi'n fanwl sut y maent yn mynd i'r afael â'r canlyniadau hynny. Byddem yn disgwyl i'r camau gweithredu hyn gael eu cwblhau o fewn 12 mis.

- Rydym hefyd yn disgwyl i'r sefydliad restru unrhyw adolygiadau neu arolygiadau eraill y mae'n ofynnol i'r sefydliad eu cynnal ar gyfer darpariaeth addysg uwch arall fel prentisiaethau neu i ateb gofynion Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio. Lle mae'r rhain yn gamau gweithredu yn dilyn yr adolygiad, rydym yn disgwyl i'r camau gweithredu hyn gael eu cwblhau o fewn 12 mis.
- Cadarnhad a thystiolaeth bod ei holl ddarpariaeth addysg nad yw'n addysg uwch, ac unrhyw addysg nad yw'n addysg uwch a ddarperir ar ei ran, wedi cael adolygiad/arolygiad llwyddiannus gan y corff priodol sy'n gyfrifol am safonau ansawdd y ddarpariaeth honno. Yn y flwyddyn yn union ar ôl adolygiad/arolygiad, os yw sefydliadau rheoleiddiedig presennol wrthi'n gweithio trwy ganlyniad adolygiad/arolygiad i fynd i'r afael â materion a ddeilliodd o ganlyniad llai na chwbl foddhaol, rydym yn disgwyl iddynt nodi'n fanwl sut y maent yn mynd i'r afael, neu'n cynllunio i fynd i'r afael â'r canlyniadau hynny. Byddem yn disgwyl i'r camau gweithredu hyn gael eu cwblhau o fewn 12 mis.
- Cadarnhad bod y corff llywodraethu wedi gallu llofnodi'r datganiadau sicrhau ansawdd blynyddol y gofynnwyd amdanynt:
  - i) Mae'r corff llywodraethu wedi cael adroddiad sy'n ystyried yr adolygiad sicrhau ansawdd allanol, ac mae cynllun gweithredu wedi cael ei roi ar waith a'i gyflawni fel y bo'n briodol, mewn partneriaeth â'r corff myfyrwyr.
  - ii) Mae'r methodolegau a ddefnyddir fel sail i wella profiad academaidd myfyrwyr a deilliannau myfyrwyr, hyd eithaf ein gwybodaeth, yn gadarn ac yn briodol.
  - iii) (a) Ar gyfer darparwyr sydd â phwerau dyfarnu graddau: Mae safonau'r dyfarniadau yr ydym yn gyfrifol amdanynt wedi cael eu pennu a'u cynnal yn briodol.

    b) Ar gyfer darparwyr heb bwerau dyfarnu graddau: Mae safonau'r dyfarniadau yr ydym yn gyfrifol amdanynt wedi cael eu cynnal yn briodol.
  - iv) Mae'r corff llywodraethu wedi ystyried adroddiad ar y ddeialog flynyddol rhwng y sefydliad a'r undeb myfyrwyr neu gorff cyfwerth, wedi craffu ar ganlyniadau arolwg myfyrwyr ac wedi cadarnhau bod cynlluniau gweithredu wedi cael eu rhoi ar waith a'u cyflawni, mewn partneriaeth â'r corff myfyrwyr.
  - v) Mae'r corff llywodraethu wedi cael copi o'r cytundeb perthynas rhwng y sefydliad a'r undeb myfyrwyr neu gorff cyfwerth, a chopi o'r siarter myfyrwyr, y mae'r ddau ohonynt wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
  - vi) Mae gan y corff llywodraethu oruchwyliaeth effeithiol ar ganlyniadau graddau ac uniondeb academaidd.

- Cadarnhad bod trefniadau partneriaeth priodol ar waith gyda'r holl gyrff eraill sydd naill ai'n darparu addysg ar ei ran neu (lle y bo'n berthnasol) sy'n darparu cymwysterau sy'n arwain at un o'i ddyfarniadau. Mae'n ofynnol i'r sefydliad restru'r holl gyrff sydd naill ai'n darparu addysg ar ei ran neu (lle y bo hynny'n berthnasol) sy'n darparu cymwysterau sy'n arwain at un o'i ddyfarniadau yn y Tabl 'Lleoliadau' yn **Atodiad B**, gan gadarnhau bod cytundeb ar waith ar gyfer pob partneriaeth. Yn unol â pharagraffau 41-44, dylai hyn gynnwys trefniadau dilysu neu freinio ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir ac ymchwil ôl-radd, ond nid oes angen iddo gynnwys partneriaethau doethurol. Rydym yn disgwyl i bob cytundeb fod wedi'i lofnodi ar ôl 1 Medi 2015 (neu fod ag adendwm a ychwanegwyd ar ôl 1 Medi 2015) i gadarnhau bod y trefniadau yn dod o dan Ddeddf 2015.[12] Gall y CADY ofyn am gyflwyno cytundebau partneriaeth.
- Lle mae trefniadau dilysu ar waith, cadarnhad o hyd dilysiad ar gyfer cyrsiau. Bydd yn rhaid i'r sefydliad ddarparu cyfnod y dilysiad (dyddiadau i ac o) yn y Tabl 'Lleoliadau' yn **Atodiad B**. Rydym yn disgwyl i'r trefniadau dilysu hynny fod yn effeithiol o ran galluogi'r darparwr i fod wedi'i argyhoeddi ynghylch ansawdd yr addysg sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster o dan y trefniadau.

## Rhan Dau: Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

72. Mae'r adran hon yn rhoi arweiniad i'r sefydliad sy'n cwblhau'r ffurflen gais ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad sydd ynghlwm yn **Atodiad A**.

73. Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn nodi ymrwymiad y sefydliad i ehangu mynediad at, trwy a'r tu hwnt i AU trwy gefnogi cyfle cyfartal a hybu addysg uwch yng Nghymru.

74. Mae Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Deddf 2015) yn nodi gofynion cyffredinol Cynllun Ffioedd a Mynediad. Y gofynion cyffredinol yw:
    - cymryd camau, neu sicrhau bod camau o'r fath yn cael eu cymryd, i ddenu ceisiadau gan ddarpar fyfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol
    - cymryd camau, neu sicrhau bod camau o'r fath yn cael eu cymryd, i gadw myfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol
    - darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr, neu sicrhau bod cymorth o'r fath yn cael ei ddarparu
    - rhoi gwybodaeth ar gael i fyfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr ynghylch y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr o unrhyw ffynhonnell, neu sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei rhoi ar gael
    - hysbysu unrhyw ddarpar fyfyriwr, cyn i'r myfyriwr ymrwymo i ddilyn cwrs, ynghylch cyfanswm y ffioedd y bydd y sefydliad yn eu codi am gwblhau'r cwrs, neu sicrhau bod unrhyw ddarpar fyfyriwr yn cael gwybod hynny
    - monitro cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cynllun, a

[12] Fel a nodwyd uchod yn yr adran sy'n ymwneud â meini prawf ar fod yn sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch, ceidw CCAUC yr hawl i ofyn am gopïau o'r cytundebau perthnasol. Bydd CCAUC yn parhau i adolygu'r gofynion ynghylch ansawdd, ac felly gall ddiweddaru'r rhain mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

- monitro'r cynnydd o ran cyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun.

75. Bydd angen datblygu canllawiau er mwyn ateb y gofynion deddfwriaethol newydd yn unol â Deddf ADY (Cymru) 2022, gyda chanllawiau sy’n ymwneud â'r blaenoriaethau deddfwriaethol canlynol yn cael eu cyhoeddi yn ystod cyfnod y Cynllun Ffioedd a Mynediad:
    - Cwynion Myfyrwyr
    - Cynllun Diogelu Dysgwyr
    - Cod Ymgysylltu â Dysgwyr
    - Lles Staff a Myfyrwyr, a hefyd
    - Cyfle cyfartal.

    O ystyried bod y blaenoriaethau deddfwriaethol hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, pe bai'r canllawiau hyn yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd blwyddyn academaidd 2026/27, yna bydd CCAUC yn disgwyl i bob sefydliad rheoleiddiedig eu hystyried fel rhan o gyflawni amcanion eu Cynllun Ffioedd a Mynediad.

76. Rydym wedi amlygu mewn gwahanol rannau o'r ffurflen gais ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad ble’r ydym yn disgwyl i dystiolaeth o'r gofynion cyffredinol gael ei dangos.

77. Rhaid cyhoeddi Cynlluniau Ffioedd a Mynediad a rhaid eu gwneud yn hygyrch i fyfyrwyr mewn unrhyw fformat pe gofynnid am hyn.

78. Rhaid i'r ffurflen gais nodi’n glir beth yw enw'r sefydliad sy'n ymgeisio am y Cynllun Ffioedd a Mynediad.

79. Gall y sefydliad ychwanegu ei nodweddion brandio ei hun at y templed o'r cychwyn cyntaf, ond ni ddylai newid y ffurflen gais mewn unrhyw ffordd ar ôl iddi gael ei chymeradwyo gennym ni.

## Hyd y Cynllun Ffioedd a Mynediad

80. Ystyrir bod Cynllun Ffioedd a Mynediad 'mewn grym' o'r dyddiad y caiff ei gymeradwyo ac mae'n ‘effeithiol’ o'r flwyddyn academaidd y mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn ymwneud â hi. Er enghraifft, bydd cynllun ar gyfer y cyfnod 2025/26 mewn grym o ddyddiad ei gymeradwyo gan CCAUC sef, yn yr enghraifft hon, mis Gorffennaf 2024, ac yn effeithiol ym mlwyddyn academaidd 2025/26.

81. Rhaid i Gynlluniau Ffioedd a Mynediad nodi'r cyfnod pan fyddant yn effeithiol.

82. Mae CCAUC yn gweithio i flwyddyn academaidd a chynllunio at sawl diben, gan gynnwys Cynllunio Ffioedd a Mynediad, sef 1 Awst tan 31 Gorffennaf. Mae sicrhau bod Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yn cyd-fynd â'n cylch cynllunio blynyddol yn galluogi sefydliadau i fod yn ystwyth wrth ymateb i bolisïau Llywodraeth Cymru a CCAUC ac anghenion myfyrwyr a chyhoeddi lefelau ffioedd tua'r un pryd â sefydliadau addysg uwch eraill y DU.

83. Ar gyfer sefydliadau rheoleiddiedig, bydd y cynllun hwn yn cwmpasu dwy flynedd academaidd, h.y. 2025/26 a 2026/27.

## Tudalen gynnwys

84. Rydym yn disgwyl i'r holl Gynlluniau Ffioedd a Mynediad gynnwys tudalen gynnwys i gynorthwyo darllenwyr i ddod o hyd i'w ffordd drwy'r cynllun.

## Adran 1 - Lefelau ffioedd

### Adran 1.1 - Lefelau ffioedd neu benderfynu lefel ffioedd ym mhob lleoliad

85. Rhaid i Gynlluniau Ffioedd a Mynediad naill ai:
    - pennu pob lefel ffioedd y bydd y sefydliad yn ei chodi neu
    - ddarparu ar gyfer penderfynu terfyn ffioedd.

    Caiff canllawiau ar gyfer y ddau ddull hyn o gyflwyno ffioedd eu nodi isod.

86. Rhaid i sefydliadau ystyried ymrwymiadau a wnaed mewn Cynlluniau Ffioedd a Mynediad blaenorol ac mewn cyfathrebiadau eraill gyda myfyrwyr e.e. deunyddiau marchnata a llythyrau o gynnig wrth nodi neu bennu lefel ffioedd.

**Nodi lefelau ffioedd**

87. Lle mae'r sefydliad yn nodi lefelau ffioedd israddedig amser llawn a TAR (SAC) mewn cynllun, dylid eu nodi'n glir yn y tabl a ddarperir ar gyfer pob blwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi hefyd. Ar gyfer pob lefel ffioedd, dylai'r sefydliad restru pob lleoliad ar wahân lle codir y ffi honno a'r cymhwyster y mae'r myfyriwr y codir y ffi honno arnynt yn 2025/26 a 2026/27 yn astudio tuag ato. Dylai'r cymwysterau y mae'n rhaid eu rhestru fod fel a ganlyn:
    - gradd gyntaf
    - gradd Meistr integredig
    - TAR sy'n arwain at SAC
    - TAR nad yw'n arwain at SAC
    - Gradd Sylfaen
    - HND
    - HNC
    - diploma addysg uwch, neu
    - dystysgrif addysg uwch.

88. Lle na chytunir ar lefel ffioedd ar gyfer math penodol o gymhwyster mewn lleoliad, ni fydd y sefydliad yn gallu codi'r lefel honno o ffioedd. Er enghraifft, os bydd cynllun cymeradwy yn cynnwys lefelau ffioedd sy'n £7,500 ar gyfer HNCs a HNDs yn lleoliad partner arall sy'n elusen sy'n darparu cwrs cymwys ar ei ran, ni fydd y sefydliad yn gallu codi ffi am unrhyw gymhwyster arall, megis gradd sylfaen, yn y lleoliad hwnnw, oni bai ei fod yn amrywio ei gynllun yn gyntaf, trwy broses amrywio CCAUC.

89. Rhaid i'r sefydliad ystyried fel lleoliadau ar wahân:
    - pob un o'i gampysau ei hun, a hefyd
    - campysau'r elusennau sy'n darparu cyrsiau israddedig amser llawn ar ran y sefydliad.

90. Wrth restru lefelau ffioedd, ni all y sefydliad fynd y tu hwnt i'r uchafswm ffioedd mewn rheoliadau. Ar hyn o bryd mae'r rhain fel a ganlyn:

- £4,625 ar gyfer blynyddoedd academaidd olaf cyrsiau lle mae'n ofynnol fel arfer i'r flwyddyn academaidd honno gael ei chwblhau ar ôl mynychu am lai na 15 wythnos a chwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon gan gynnwys blwyddyn academaidd pan fo cyfanswm unrhyw gyfnodau astudio amser llawn yn llai na 10 wythnos
- £1,850 ar gyfer cyrsiau rhyngosod
- £1,385 ar gyfer lleoliadau gwaith ac astudio dramor, a
- £9,250 ar gyfer pob cwrs arall.

91. Lle mae'r sefydliad yn ymrwymo i nodi lefelau ffioedd mewn cynlluniau, rhaid i'r sefydliad ystyried effaith bosibl newidiadau i'r uchafswm ffioedd, yn dilyn cymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad. Pan geir unrhyw newidiadau i derfynau uchaf ffioedd bydd angen amrywiad i Gynllun Ffioedd a Mynediad. Wrth ystyried amrywiadau i Gynlluniau Ffioedd a Mynediad, byddwn yn ystyried yr egwyddor sylfaenol bod rhaid i fyfyrwyr wybod, cyn ymrwymo i gwrs, faint y cyfanswm y ffioedd y bydd y sefydliad yn eu codi trwy gydol y cwrs.

92. Wrth gwblhau'r ffurflen gais, gall y sefydliad ddileu'r blwch a ddarperir ar gyfer penderfynu lefelau ffioedd os yw'n nodi lefelau ffioedd.

**Penderfynu lefel ffioedd**

93. Lle mae sefydliad yn penderfynu lefel ffioedd, rhaid i'r sefydliad roi esboniad clir o sut y cyfrifir y ffi. Gallai'r sefydliad gyfeirio at yr uchafswm ffioedd a chysylltu â'r uchafswm hwnnw fel a ragnodir yn rheoliadau Deddf 2015, er enghraifft, a nodi pryd y bydd y lefelau ffioedd gwirioneddol yn cael eu pennu a ble y bydd yr wybodaeth hon i'w chael ar ei wefan, yn ogystal â chadarnhau na fydd y ffi yn fwy na'r uchafswm a ganiateir. Rhaid i'r sefydliad sicrhau, pan fydd yn pennu lefel ffioedd, ei fod yn ei phennu mewn ffordd sy'n gyson â sut y penderfynwyd y lefel ffioedd mewn Cynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy.

94. Dylai sefydliadau sicrhau, lle y bo'n bosibl, y dylai'r Cynllun Ffioedd a Mynediad fod yn glir ac yn hawdd i fyfyrwyr a rhanddeiliaid eraill ei ddeall. Lle penderfynir lefelau ffioedd, dylai partïon â buddiant allu dehongli'r cynllun ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd.

95. Lle mae sefydliad yn penderfynu lefel ffioedd, rhaid iddo nodi pa leoliadau astudio y bydd y lefelau ffioedd hynny a benderfynwyd yn berthnasol iddynt. Mae hyn yn cynnwys enw pob campws lle mae'r sefydliad sy'n ymgeisio'n darparu cyrsiau israddedig amser llawn a TAR ac enw unrhyw ddarparwr sy'n darparu cyrsiau ar ei ran ac enwau campysau perthnasol lle mae'r darparwr hwnnw'n gweithredu dros sawl campws.

96. Os yw'r sefydliad yn penderfynu lefel ffioedd, gellir dileu'r tabl ar gyfer nodi lefelau ffioedd o'r ffurflen gais.

97. Lle mae sefydliad yn penderfynu sut y cyfrifir ffi, bydd angen iddo ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd yn penderfynu ffi a hynny yn rhan tri o'r ffurflen gais. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio gan CCAUC yn unig i

ddeall buddsoddiad i wella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys isod yn yr adran ar fuddsoddi incwm ffioedd.

**Adran 1.2 – Cyfanswm lefelau ffioedd**

98. Mae'n un o ofynion cyffredinol Deddf 2015 bod rhaid i bob sefydliad rheoleiddiedig naill ai:
- darparu gwybodaeth glir i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr cyfredol am gyfanswm eu ffioedd ar gyfer cwblhau'r cwrs a'r sail ar gyfer unrhyw godiadau posibl mewn ffioedd trwy gydol eu cwrs, neu
- gadarnhau na fydd unrhyw godiadau mewn ffioedd trwy gydol eu cwrs.

99. Rhaid i'r adran hon o'r ffurflen gais ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad nodi hefyd sut y bydd y sefydliad yn cyfleu gwybodaeth am ffioedd i'w fyfyrwyr a chysylltu â ble y mae'r wybodaeth i’w chael ar ei wefan.

100. Rhaid i'r adran hon ymwneud â phob lefel ffioedd a godir, nid dim ond y rhai a godir ar uchafswm y cyfraddau ffioedd.

101. Wrth gymeradwyo’r cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad i'w gyflwyno i CCAUC, mae corff llywodraethu'r sefydliad yn cadarnhau bod ei brosesau ar gyfer penderfynu neu nodi lefelau ffioedd yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn.

**Adran 2 – Partneriaeth gyda myfyrwyr**

102. Dylai llais y myfyriwr fod yn amlwg drwy’r cynllun cyfan. Dylai'r sefydliad egluro yn y ffurflen gais sut y mae'r sefydliad yn cynnwys myfyrwyr fel partneriaid mewn prosesau penderfynu a chynllunio strategol. Bydd hyn yn dangos ymrwymiad y sefydliad i gyd-fynd â'i Siarter Myfyrwyr, partneriaeth gyda myfyrwyr, a darparu gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

103. Rhaid i'r sefydliad esbonio’n glir sut y mae'r sefydliad wedi adnabod blaenoriaethau ei boblogaethau myfyrwyr amrywiol (gan gynnwys y rhai sy'n astudio cyrsiau a ddarperir ar ei ran gan elusen arall) ac egluro sut y mae barn y myfyrwyr hyn yn goleuo amcanion y sefydliad, y gweithgareddau a'r gwasanaethau sydd i'w darparu trwy'r cynllun a'r grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol y mae'n eu cefnogi.

104. Dylai'r Cynllun Ffioedd a Mynediad nodi sut y mae'r sefydliad yn rhoi adborth i'w fyfyrwyr a sut y mae wedi ystyried eu blaenoriaethau. Byddai enghreifftiau o wasanaethau a gweithgareddau a nodir yn y cynllun sy’n cael eu darparu mewn cydweithrediad â myfyrwyr yn ddefnyddiol.

105. Bydd gwybodaeth am sut y cafodd y cynllun ei oleuo gan arolygon o fyfyrwyr ehangu mynediad presennol a/neu ddarpar fyfyrwyr ehangu mynediad, ac o ganlyniad i gyfranogiad Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach, yn cryfhau'r cynllun ac yn dangos sut y cafodd lleisiau myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol eu cynnwys yn y broses gynllunio.

## Adran 3 – Adnabod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol

106. Rhaid i'r sefydliad nodi'n glir pwy yw'r grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch y bydd yn eu cefnogi â buddsoddiad ei Gynllun Ffioedd a Mynediad i wella cyfle cyfartal yng Nghymru. **Dim ond grwpiau a adnabuwyd fel rhai heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU ddylai gael eu cefnogi gan fuddsoddiad mewn cyfle cyfartal**.

107. Mae CCAUC yn ystyried bod y grwpiau canlynol heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Rydym yn nodi rhai o'r rhain yn ein mesurau cenedlaethol, trwy'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach ac yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Rydym yn disgwyl i'r sefydliad gefnogi'r holl grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a restrir ym mesurau cenedlaethol CCAUC. Mae'r rhain wedi'u rhestru fel a ganlyn:
    - Myfyrwyr o bob oed o ddau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019
    - Myfyrwyr o bob oed o gwintile isaf MALIC 2019
    - Pobl o bob oed o ardaloedd yn y DU sydd â chyfranogiad isel mewn AU
    - Myfyrwyr o bob oed a fyddai'n cael budd o astudio Addysg Uwch ran-amser
    - Myfyrwyr o bob oed sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

108. Rydym yn disgwyl i sefydliadau gefnogi pob myfyriwr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a adnabuwyd ar draws y sefydliad ni waeth beth fo'r dull na'r lefel astudio.

109. Dylai prifysgolion ystyried canllawiau'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach, a'r cyllid y gwnaethant ei neilltuo i Ymgyrraedd yn Ehangach. Mae'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach yn parhau i gynnwys dau gonglfaen: prifysgolion a Phartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach rhanbarthol. Mae'r dull dau gonglfaen yn cefnogi cydweithio rhwng sefydliadau addysg uwch a Phartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach, gan hefyd gynyddu adnoddau'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach.

110. Gyda Phartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach yn gweithio gyda grwpiau blaenoriaeth i lefel 4 mewn AU, gan gynnwys oedolion heb gymwysterau lefel 4, fel a nodir yng Nghanllawiau'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach, rydym yn disgwyl i sefydliadau rheoleiddiedig weithio'n agos gyda'u Partneriaethau rhanbarthol i gefnogi pobl sy'n byw yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ar gefnogi llywodraethu a chynllunio, darparu ar y cyd, osgoi cystadleuaeth ddi-fudd, a sicrhau cymorth a phontio effeithiol i grwpiau blaenoriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach i a thrwy addysg uwch. Rydym yn disgwyl y bydd sefydliadau rheoleiddiedig yn cynyddu eu ffocws ar recriwtio a chadw pobl o gymunedau ethnig leiafrifol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch a phobl anabl.

111. Bydd y grwpiau blaenoriaeth hyn yn cyd-fynd â gwaith cynllunio camau gweithredu sefydliadau i gefnogi gwrth-hiliaeth mewn addysg uwch a chyfle cyfartal a chyfrannu at gynlluniau cydraddoldeb strategol sefydliadau. Bydd disgwyl i sefydliadau sicrhau hefyd bod gweithgareddau Ymgyrraedd yn Ehangach yn cyd-fynd â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg, gan gynnwys diwylliannau Cymru. Gall sefydliadau gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n byw y tu allan i ranbarth eu Partneriaeth gan

gynnwys pobl sy'n byw yn nau gwintel isaf MALlC mewn rhannau eraill o Gymru, pobl â phrofiad o fod mewn gofal a gofalwyr, pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, pobl sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â grwpiau eraill trwy gyllid eu Cynllun Ffioedd a Mynediad nad yw wedi'i neilltuo ar gyfer cymorth i'r rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach ranbarthol.

112. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad ddefnyddio'r Cynllun Ffioedd a Mynediad i ariannu ei gyfraniad sefydliadol i'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach ar yr un gyfradd ag yn y blynyddoedd blaenorol:
**Dim ond y grwpiau Ymgyrraedd yn Ehangach hyn y dylid eu cefnogi trwy'r cyfraniad sefydliadol i'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach a'u rhestru ar wahân yn yr adran hon. Rydym yn disgwyl i sefydliadau nodi'n glir y grwpiau sefydliadol Ymgyrraedd yn Ehangach a gefnogir ar wahân i unrhyw gymorth Cynllun Ffioedd a Mynediad ehangach ar gyfer grwpiau tebyg.**

113. Ar wahân i fuddsoddiad sefydliadol yn y Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach trwy'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, gall y sefydliad hefyd flaenoriaethu buddsoddiad ei Gynllun Ffioedd a Mynediad i gefnogi rhai o'r grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a restrir isod. Pan gynhwysir unrhyw un o'r grwpiau hyn rhaid i hynny gael ei ategu gan dystiolaeth eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sefydliad, yng Nghymru neu mewn AU yn y DU. Nid ydym yn disgwyl i'r sefydliad gefnogi'r holl grwpiau hyn sydd heb gynrychiolaeth ddigonol trwy fuddsoddiad ei Gynllun Ffioedd a Mynediad, er bod gan rai grwpiau nodweddion gwarchodedig lle mae gan sefydliadau ddyletswyddau deddfwriaethol. Mae rhai grwpiau'n fawr o ran nifer a bydd angen cymorth arnynt.

- Myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig
- Dynion ifanc o gwintel isaf MALlC ac ardaloedd â chyfranogiad isel
- Pobl sy'n byw mewn cartrefi heb waith
- Pobl sy'n profi 'tlodi mewn gwaith'
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Dysgwyr sy'n cael Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA)
- Dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- Ymgeiswyr a myfyrwyr sydd y cyntaf yn eu teulu i ymgymryd ag addysg uwch
- Aelodau presennol a chyn-aelodau o'r lluoedd arfog a'u teuluoedd
- Cyn-droseddwyr.

114. Mae Deddf 2022 yn diffinio grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol fel rhai yr effeithir yn negyddol arnynt o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol. Rydym yn annog sefydliadau i ddefnyddio'r safbwynt hwn i ddiffinio grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

115. Gall sefydliad gynnwys grwpiau eraill y mae wedi eu hadnabod fel rhai heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Lle mae hyn yn wir, dylid eu rhestru ar wahân yn yr adran hon.

116. Dylai'r sefydliad ystyried sut i ddefnyddio buddsoddiad ei Gynllun Ffioedd a Mynediad i gefnogi gwrth-hiliaeth, fel a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru a chyfrannu at wneud Cymru'n wrth-hiliol.

**Adran 4 - Amcanion, targedau a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol fel y maent yn berthnasol i gefnogi cyfle cyfartal a hybu Addysg Uwch**

117. Rhaid i'r sefydliad nodi amcanion ei Gynllun Ffioedd a Mynediad i wella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch. Dylai'r sefydliad nodi'r rhain ar wahân ar gyfer cyfle cyfartal (yn adran 4.1 o'r ffurflen) a hybu addysg uwch (yn adran 4.2 o'r ffurflen).

118. Rhaid i'r holl amcanion a'r buddsoddiad cyfatebol sy'n ymwneud â chyfle cyfartal fod yn berthnasol i gyflawni gwaith hybu a rhoi cymorth i bobl sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

119. Rhaid i sefydliadau sy'n ceisio dod yn rheoleiddiedig am y tro cyntaf nodi buddsoddiad yn erbyn pob amcan ac mae'n ofynnol iddynt bennu lefel arfaethedig o wariant ar gyfer pob amcan.

**Amcanion**

120. Wrth bennu amcanion, rhaid i'r sefydliad fod yn glir mai dim ond myfyrwyr ac ymgeiswyr o'r grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol y mae wedi'u hadnabod y gall amcanion i wella cyfle cyfartal eu cefnogi'n uniongyrchol. Dim ond amcanion i hybu addysg uwch sy'n gallu bod â ffocws ar gefnogi'r holl fyfyrwyr.

121. Rhaid i'r sefydliad ystyried y gofynion cyffredinol canlynol ar gyfer Cynlluniau Ffioedd a Mynediad wrth bennu amcanion i wella cyfle cyfartal. Wrth bennu neu gynnal amcanion, dylai'r sefydliad ystyried sut y byddant yn mynd i'r afael â:
- denu ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol
- cadw myfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Yng nghyd-destun y newidiadau a ragwelir i drefniadau rheoleiddio, rydym yn annog sefydliadau'n gryf i ystyried pennu amcanion i:
- gynyddu cyfran y myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg
- hybu dysgu gydol oes
- lleihau unrhyw fylchau mewn cyrhaeddiad rhwng gwahanol grwpiau o fyfyrwyr, lle mae'r gwahaniaethau'n codi o ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol, a
- cynorthwyo myfyrwyr sy'n gorffen cyrsiau ac sy'n aelodau o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i barhau â'u haddysg, i ddod o hyd i waith neu i ddechrau busnes.

122. Pan fydd amcanion yn cael eu pennu i gynyddu cyfran y myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, dylid cysoni'r amcanion hyn ag amcanion sefydliadol y cytunwyd arnynt gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Rydym hefyd yn disgwyl i golegau sy'n ceisio dod yn rheoleiddiedig ar gyfer 2025/26 i 2026/27 ystyried sut y mae eu hamcanion cyfrwng Cymraeg yn adlewyrchu uchelgais i wella llwybrau o bynciau ar lefelau astudio is. Dylai hyn gyd-fynd â'r cyllid y maent yn ei gael gan Lywodraeth Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

123. Gall y disgwyliad i hybu addysg uwch gynnwys gweithgareddau a gwasanaethau sy'n cynnwys yr holl fyfyrwyr, nid dim ond y rhai o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Gallai gweithgareddau a gwasanaethau o'r fath gynnwys y rhai sy'n gwella profiad a deilliannau cyflogadwyedd yr holl fyfyrwyr,

yn ogystal â dangos sut y mae'r sefydliad yn ymgysylltu ag ysgolion a cholegau, cyflogwyr, partneriaid eraill a'r cymunedau lleol a chenedlaethol yng Nghymru.

124. Cyhoeddodd CCAUC ei fesurau cenedlaethol ar gyfer perfformiad addysg uwch [13] ym mis Tachwedd 2018. Rydym yn disgwyl i'r sefydliad ystyried sut y bydd amcanion ei Gynllun Ffioedd a Mynediad yn cyfrannu at wneud cynnydd yn erbyn y mesurau sy'n berthnasol i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.

**Targedau**

125. Nid ydym yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau osod targedau, ond trwy ein proses fonitro flynyddol, byddwn yn disgwyl deall sut y mae'r sefydliad yn mesur cynnydd tuag at gyflawni ei amcanion a'i uchelgeisiau i wella.

126. Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n gwneud cais i fod yn rheoleiddiedig **am y tro cyntaf** nodi sut y maent yn bwriadu mesur cynnydd yn erbyn eu hamcanion fel rhan o'u cais. Byddai'n ofynnol i ni gael datganiad i amlinellu pa ddata y byddant yn ei ddefnyddio i fonitro'r cynnydd hwn. Dylai'r datganiad hwn ddarparu manylion ynghylch cysoni â'r mesurau cenedlaethol ar gyfer addysg uwch.

**Buddsoddi incwm ffioedd**

127. Rhaid i'r sefydliad fuddsoddi cyfran resymol o incwm ffioedd a geir o gyrsiau israddedig amser llawn a TAR (SAC) i gyflawni amcanion ei Gynllun Ffioedd a Mynediad. Rhaid i sefydliadau sy'n cyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad am y tro cyntaf nodi cyfran yr incwm ffioedd sy'n cael ei fuddsoddi i gyflawni pob un o'i amcanion i wella cyfle cyfartal ac i hybu addysg uwch yn adran 4.1 (cyfle cyfartal) a 4.2 (hybu addysg uwch) o'r ffurflen gais. Dylid nodi cyfanswm yr incwm ffioedd sy'n cael ei fuddsoddi mewn cyfle cyfartal a hybu addysg uwch yn y tabl 'Buddsoddi Ffioedd' yn **Atodiad B**.

128. Mae'n ofynnol i **sefydliadau rheoleiddiedig** gynnal yr un gyfran o gyfanswm incwm ffioedd israddedig llawn amser a TAR (SAC) ag o'r blaen yn y meysydd canlynol:

- cyfran yr arian a fuddsoddir i wella cyfle cyfartal
- y Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach, a hefyd
- cymorth i fyfyrwyr h.y. cronfeydd caledi a bwrsariaethau.

129. Os nad yw'r sefydliad **wedi bod yn rheoleiddiedig o'r blaen,** rydym yn disgwyl iddo fuddsoddi rhwng 14% ac 17% o gyfanswm ei incwm israddedig amser llawn yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad. Rhaid cytuno ar lefel y buddsoddiad gyda ni. Sefydlwyd yr ystod hon o fuddsoddiad canrannol gyda'r holl sefydliadau rheoleiddiedig presennol.

[13] Mae CCAUC o'r farn mai Mesurau Cenedlaethol perthnasol yw: Ehangu Mynediad, Cyfranogiad, Cadw, Rhan-amser, Amrywiaeth o'r boblogaeth myfyrwyr, Yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, Cyfrwng Cymraeg, Symudedd Myfyrwyr, Cyflogaeth a Chyflogaeth Graddedigion. Dylid nodi bod y mesurau cenedlaethol cyfranogiad a chadw yn cael eu datblygu ar hyn o bryd o gofio nad yw Dangosyddion Perfformiad HESA ar lefel y DU a ddefnyddiwyd yn flaenorol yn y mesurau hyn yn cael eu cynhyrchu mwyach.

130. Lle mae sefydliadau'n gwneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad am y tro cyntaf, dylid cyflwyno buddsoddiad yn erbyn pob un o amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad.

131. O ystyried bod gwerthuso Cynllun Ffioedd a Mynediad yn rhoi cyfle i'r sefydliad adnabod sut y gall fod yn fwy effeithiol wrth gyflawni amcanion y Cynllun Ffioedd a Mynediad, byddem yn disgwyl i'r sefydliad ddyrannu cyfran resymol o'i incwm ffioedd i werthuso ei gynllun. Os yw'n gwneud hynny, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw sefydliadau sy'n ymgeisio i ddod yn rheoleiddiedig **am y tro cyntaf** nodi sut y bydd y buddsoddiad hwn yn cael ei ddefnyddio a lefel y buddsoddiad yn y Tabl 'Buddsoddi Ffioedd' yn **Atodiad B**.

**Cyflawni'r amcanion**

132. Byddwn yn cyfarfod gyda sefydliadau sydd newydd ddod yn rheoleiddiedig i drafod sut y maent yn bwriadu cyflawni eu hamcanion i hybu cyfle cyfartal ac i hybu addysg uwch i grwpiau a adnabuwyd mewn paragraffau.

133. Rydym yn cydnabod y gall rhai gweithgareddau a gwasanaethau gyfrannu at gyflawni amcanion lluosog a diwallu anghenion gwahanol grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Lle mae hyn yn wir, bydd arnom eisiau deall sut y bydd y gweithgaredd neu'r gwasanaeth hwnnw'n cyfrannu at y gwahanol amcanion. Bydd angen i'r sefydliad fod yn glir, at ei ddibenion archwilio ei hun, sut y mae buddsoddiad wedi'i ddosrannu rhwng y gwahanol amcanion sy'n cael eu cyflawni.

134. Ceir gofyniad cyffredinol bod rhaid i bob Cynllun Ffioedd a Mynediad sicrhau bod cymorth ariannol a gwybodaeth am gymorth ariannol ar gael i fyfyrwyr. Rydym yn disgwyl i sefydliadau nodi sut y maent wedi cyflawni hyn o asesu incwm ffioedd wrth gyflwyno gwybodaeth fonitro, gan gynnwys y mathau o gymorth ariannol sydd ar gael i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (ac a gefnogir gan fuddsoddiad mewn hybu cyfle cyfartal) a chymorth i'r holl fyfyrwyr a gefnogir gan fuddsoddiad mewn hybu AU. Rydym yn disgwyl i ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wneir mewn cynllun gael eu hanrhydeddu.

135. Rydym yn disgwyl i'r holl weithgareddau a gwasanaethau gael eu monitro'n rheolaidd a'u gwerthuso o bryd i'w gilydd i sicrhau bod y sefydliad yn hyderus bod y ddarpariaeth yn parhau i fod ar y trywydd iawn i ddiwallu anghenion myfyrwyr a darpar fyfyrwyr. Byddwn yn gofyn am dystiolaeth trwy ein proses fonitro i ddeall sut y mae sefydliadau wedi adolygu a gwerthuso'r ddarpariaeth, gan gynnwys ystyried asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

## Rhan Tri: Tystiolaeth i CCAUC i ategu'r cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad

136. I ategu Cynllun Ffioedd a Mynediad y sefydliad, rydym yn ei gwneud yn ofynnol iddo gyflwyno tystiolaeth a data ategol i CCAUC, fel a nodir isod. Nid oes angen i wybodaeth a ddarperir yn Rhan Tri o'r ffurflen gais fod yn gyhoeddedig, gan ganiatáu i'r sefydliad fod yn fwy cryno wrth ei chyflwyno a chyfeirio at ddogfennau a data y mae CCAUC eisoes yn ymwybodol ohonynt.

## Tystiolaeth a data i ategu amcanion y cynllun

137. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n cyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad am y tro cyntaf ddarparu tystiolaeth i ni i roi eglurhad manylach o’u Cynllun Ffioedd a Mynediad gan gynnwys y cyd-destun a'r blaenoriaethau cyfredol. Wrth gyflwyno’i achos, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad egluro gan gyfeirio at ddata, ac enghreifftiau. Lle cyfeirir at ddogfennaeth sefydliadol, mae arnom eisiau deall yn glir faint o gyd-fynd sydd a beth yw ei ffocws, yn hytrach na dim ond darparu rhestr neu ddolen i ni. Dylai'r dystiolaeth a'r data gynnwys:
- sut y mae'r cynllun yn cyd-fynd â’i genhadaeth a'i ddiben a'i flaenoriaethau ac yn cyfrannu at y rhain fel y’u nodir mewn dogfennau strategol allweddol, gan gynnwys: ei strategaeth sefydliadol a'i strategaethau a chynlluniau tanategol, ei gynllun cydraddoldeb strategol ac yn enwedig ei strategaeth ehangu mynediad a'i gynllun cyflawni ehangu mynediad a fydd yn ehangach na blaenoriaethau'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, a'i strategaeth gadw
- sut y mae'r sefydliad yn ymgysylltu â'i Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach ranbarthol;
- sut y bydd gweithgareddau a gwasanaethau cyfle cyfartal yn cynorthwyo grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i bontio i a thrwy addysg uwch a sut y bydd y sefydliad yn sicrhau continwwm o ymgysylltiad â myfyrwyr / darpar fyfyrwyr i gefnogi pontio, cadw, llwyddiant
- sut y mae deilliannau ymarferion perfformiad, monitro a gwerthuso blaenorol wedi goleuo'r cynllun cyfredol
- sut y mae deilliannau asesiadau parhaus o effeithiau wedi goleuo'r cynllun cyfredol, gan gynnwys asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb
- asesiad risg sy'n nodi ble y mae'r sefydliad yn gweld risgiau i gyflawni ei amcanion a'r hyn y bydd yn ei wneud i liniaru'r risgiau.

138. Lle mae sefydliad yn penderfynu ffi, bydd angen iddo egluro ar ba sail y mae wedi gwneud hyn. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall yr ymrwymiad i gefnogi amcanion, targedau a gweithgareddau'r cynllun.

## Tystiolaeth a data i ategu ffocws y cynllun ar grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol

139. Rhaid i sefydliadau sy'n ymgeisio **am y tro cyntaf** hefyd ddarparu tystiolaeth a data yn yr adran hon o'r ffurflen gais, i gyfiawnhau pam y dylai'r grwpiau a adnabuwyd fel rhai heb gynrychiolaeth ddigonol ac a restrwyd yn adran tri o'r cynllun gael eu cefnogi gan y gyfran o incwm ffioedd dysgu y rhoddwyd cyfrif amdani yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad.

140. Mater i'r sefydliad yw dangos pam ei fod wedi adnabod grwpiau a nodir yn y cynllun fel rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gydnabod y canllawiau a nodir ym mharagraffau 106-116 uchod.

141. Wrth ddarparu tystiolaeth a data, dylai'r sefydliad ystyried mai'r nod wrth ehangu mynediad yng Nghymru yw sicrhau cyfle cyfartal, pontio, dilyniant, cadw a llwyddiant i addysg uwch, trwy addysg uwch a’r tu hwnt. Mae ehangu mynediad yn galluogi dysgwyr o bob oed, o gefndiroedd sy’n flaenoriaeth, sy'n wynebu'r

rhwystrau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd a sefydliadol mwyaf, i gyflawni eu potensial fel myfyrwyr, dysgwyr gydol oes, dinasyddion a chyflogeion.

142. Wrth asesu'r adran hon o'r cais, rydym yn disgwyl deall sut y mae'r grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a adnabuwyd yn adran 3 o'r ffurflen gais, yn cyd-fynd â chenhadaeth y sefydliad, ei flaenoriaethau a'r ymrwymiadau yn ei gynllun cydraddoldeb strategol, fel y bo'n briodol.

143. Wrth adnabod grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, dylai'r sefydliad daro cydbwysedd rhwng maint y buddsoddiad ar y naill law a nifer y grwpiau y mae'n bwriadu ymgysylltu â hwy ar y llaw arall. Efallai na fydd buddsoddiad a wasgerir ar draws gormod o grwpiau'n galluogi'r sefydliad i gael digon o effaith ar wella mynediad i a thrwy AU. Rydym yn disgwyl gallu deall, o'r wybodaeth a ddarperir, gan gynnwys gan gyfeirio at asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sut y mae grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol wedi cael eu hadnabod.

144. Ni fydd pob unigolyn o fewn grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch yn wynebu rhwystrau i gael mynediad at addysg uwch, symud ymlaen mewn addysg uwch a llwydd mewn addysg uwch. Dylai sefydliadau ystyried hyn a chanolbwyntio ar ymgysylltu â'r myfyrwyr a'r darpar fyfyrwyr hynny sydd â'r pellter mwyaf i deithio o'r pwynt mynediad i addysg uwch.

## Atodiad B – gwybodaeth i ategu'r ffurflen gais ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad

145. Mae'r adran hon o'r canllawiau'n ymwneud ag **Atodiad B** wrth y cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad. Wrth gwblhau'r tablau, dylai sefydliadau ystyried canllawiau yn adran tri o fewn rhan un y templed.

146. Mae **Atodiad B** yn daenlen sy'n cynnwys pedair dalen waith. Mae pob dalen waith yn casglu'r data canlynol:

- **Incwm ffioedd**: Incwm ffioedd gan fyfyrwyr israddedig amser llawn (FTUG) a thystysgrif addysg i raddedigion (Statws Athro Cymwysedig) (TAR) (SAC) sy'n hanu o'r gwledydd cartref[14] o dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol
- **Lleoliadau**: lleoliad, math, lefel, gwybodaeth am bartneriaeth a rhagolygon niferoedd y myfyrwyr ar gyfer yr holl weithgarwch a reolir gan yr ymgeisydd
- **Gwybodaeth ariannol**: y rhagolygon ariannol
- **Buddsoddi ffioedd**: rhagolygon gwariant incwm y Cynllun Ffioedd a Mynediad, ac fe'u disgrifir yn fanylach ym mharagraffau 174-179 isod.

147. Mae'r daenlen a gyhoeddwyd yn **Atodiad B** o'r cylchlythyr hwn yn cynnwys dalenni gwaith enghreifftiol yn unig ac yn adlewyrchu'r daenlen y bydd yn rhaid i sefydliadau sy'n ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad am y tro cyntaf ei chwblhau. Bydd yn rhaid i sefydliadau sy'n rheoleiddiedig ar hyn o bryd gyflwyno gwybodaeth yn y ddalen waith lleoliadau yn unig os ydynt yn brifysgolion, o ystyried eu bod yn dychwelyd gwybodaeth ariannol trwy brosesau eraill, ac yn y ddalen waith lleoliadau a gwybodaeth ariannol yn unig os ydynt yn golegau.

[14] Mae hyn yn cynnwys unrhyw fyfyrwyr eraill sy'n gymwys i dalu ffioedd yn unol â myfyrwyr sy'n hanu o'r gwledydd cartref o dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol.

148. Bydd dalen waith unigoledig wedi'i rhagboblogi, mewn fformat Excel sy'n cynnwys y tablau i'w cwblhau, yn cael ei hanfon at sefydliadau ar wahân.

149. Dylai sefydliadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan CCAUC ar hyn o bryd gysylltu â regulationadvice@hefcw.ac.uk yn unol â'r broses a nodir ar ein gwefan er mwyn cael y tablau perthnasol. Bydd y manylion cyswllt hyn yn cael eu disodli gan y rhai ar gyfer y CADY o 1 Awst 2024, a bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu unwaith y byddant ar gael.

150. **Dim ond yn y celloedd sydd wedi'u graddliwio'n felyn y dylid cofnodi gwybodaeth**. Dylai pob cell arall ym mhob dalen waith beidio â chael eu newid mewn unrhyw ffordd. Y rheswm dros hyn yw er mwyn cynnal fformiwlâu fel y rhai a ddefnyddir i gyfrifo cyfansymiau a sicrhau y gellir cynnal gwiriadau dilysu a chymariaethau. Felly, mae pob cell nad yw'n felyn wedi cael ei chloi i atal newidiadau damweiniol i'r daenlen. I weld y fformiwlâu yn unrhyw un o'r celloedd hyn mae'n bosibl datgloi pob dalen trwy fynd at y rhuban **'Adolygu'** a dewis **'Dadwarchod dalen'** a rhoi'r cyfrinair **FAP24** i mewn. **Ni ddylid diwygio strwythur a chynllun y daenlen mewn unrhyw ffordd ychwaith**.

151. Mae dilysiadau syml wedi'u hychwanegu at bob daflen waith ac fe'u bwriedir fel cymorth i gwblhau'r tabl, er enghraifft, lle dychwelir niferoedd myfyrwyr byddai disgwyl i ffioedd gael eu dychwelyd hefyd. Ni fwriedir i'r dilysiadau awgrymu unrhyw ddisgwyliadau gan CCAUC. Os yw'r data a gofnodir yn sbarduno dilysiad, bydd neges yn ymddangos mewn coch ar ochr dde'r tabl. Bydd neges 'Adolygwch y negeseuon mewn coch i'r dde o'r tabl os gwelwch yn dda' yn ymddangos yn y bar llwyd ar frig pob dalen waith i rybuddio'r ymgeisydd ynghylch presenoldeb y negeseuon hyn.

152. Ceir pedair dalen waith yn **Atodiad B**, y rhai a restrir ym mharagraff 146 uchod, a dalen waith arall â'r label **'Rhestrau'** sy'n cynnwys gwybodaeth chwilio. Mae'r ddalen waith hon yn cynorthwyo gweithrediad dalenni gwaith eraill, nid yw'n cynnwys unrhyw fformiwlâu ac mae er mwyn cyfeirio yn unig. Gan na ddylai unrhyw wybodaeth gael ei rhoi yn y ddalen waith hon na'i dileu ohoni, mae pob cell wedi'i chloi.

153. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llyfr gwaith neu os byddwch yn profi unrhyw anawsterau technegol gydag ef, cysylltwch â regulationadvice@hefcw.ac.uk. Bydd y manylion cyswllt hyn yn cael eu disodli gan y rhai ar gyfer y CADY o 1 Awst 2024, a bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu unwaith y byddant ar gael.

**Archwiliad o'r data a ddychwelwyd ar Atodiad B**

154. Gall archwiliad allanol o ddata addysg uwch gan CCAUC gynnwys yn ei gwmpas y prosesau a'r data a ddefnyddiwyd wrth gwblhau'r tablau yn **Atodiad B**. Mae systemau a phrosesau a ddefnyddiwyd i gwblhau'r tablau hefyd wedi'u cynnwys yng nghwmpas archwiliadau mewnol blynyddol o systemau a phrosesau data addysg uwch.

**Incwm ffioedd gan fyfyrwyr israddedig amser llawn a TAR (SAC) sy'n hanu o'r gwledydd cartref a'r UE o dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol *(ymgeiswyr newydd yn unig)***

155. Mae'r tabl yn y ddalen waith **'Incwm Ffioedd'** yn casglu gwybodaeth am incwm ffioedd a niferoedd myfyrwyr sy'n ymwneud â darpariaeth ar gyfer myfyrwyr israddedig amser llawn a TAR (SAC) sy'n hanu o'r gwledydd cartref a rhai cymwys sy'n hanu o'r UE o dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol y mae'r ymgeisydd yn ei rheoli.

Cynhwyswch wybodaeth am gyrsiau:

- y mae'r ymgeisydd yn eu darparu, yn eu rheoli ac yn eu dilysu ei hun
- y mae'r ymgeisydd yn eu darparu ac yn eu rheoli a ddilysir gan gorff arall ond nad ydynt yn rhan o drefniant breinio[15]
- y mae'r ymgeisydd yn eu darparu ac yn eu rheoli, sy'n cael eu dilysu ganddo ef ei hun, ei riant-sefydliad neu gorff arall, lle maent yn is-sefydliad i'r rhiant-sefydliad hwnnw a lle nad yw'r rhiant-sefydliad yn cynnwys y cyrsiau yn eu Cynllun Ffioedd a Mynediad
- y mae'r ymgeisydd wedi gwneud trefniant breinio ar eu cyfer gyda darparwyr elusennol eraill yn y DU sy'n elusennau neu'n rhiant-sefydliadau i is-sefydliadau elusennol nad ydynt yn cyflwyno eu Cynllun Ffioedd a Mynediad eu hunain a lle mae'r myfyrwyr wedi'u lleoli yn y DU, ac
- sy'n cael eu darparu gan is-sefydliad elusennol yn y DU, lle mae'r ymgeisydd yn rhiant i'r is-sefydliad hwnnw, a lle nad yw'r is-sefydliad yn cyflwyno ei Gynllun Ffioedd a Mynediad ei hun.

Peidiwch â chynnwys gwybodaeth am gyrsiau:

- y mae'r ymgeisydd yn eu darparu ar ran darparwr arall trwy gytundeb breinio
- nad yw'r ymgeisydd yn eu darparu ac y mae'r ymgeisydd yn eu dilysu yn unig
- sy'n cael eu darparu gan is-sefydliad, lle mae'r ymgeisydd yn rhiant-sefydliad i'r is-sefydliad hwnnw, a lle mae'r is-sefydliad yn cyflwyno ei Gynllun Ffioedd a Mynediad ei hun
- y mae'r ymgeisydd wedi gwneud trefniant breinio ar eu cyfer gyda darparwr nad yw'n elusennol, a
- sy'n cael eu darparu gan is-sefydliad nad yw'n elusen, lle mae'r ymgeisydd yn rhiant-sefydliad i'r is-sefydliad hwnnw.

156. Mae'r data sydd i'w dychwelyd yn y tabl wedi'u rhannu'n gategorïau trefniant breinio / is-gontractio, a dim trefniant breinio / is-gontractio. Ar gyfer pob math o fyfyriwr a restrir yn y tabl, dylid cofnodi nifer y myfyrwyr a ragwelir yng **ngholofn C** a chyfanswm yr incwm ffioedd a ragwelir sy'n ymwneud â hwy yng **ngholofn D**. Dylai data a gofnodir yng **ngholofn C** a **cholofn D** fod yn gyson â'r data a gesglir yn y ddalen waith **'Gwybodaeth ariannol'**.

**<u>Gwybodaeth am leoliad, math, lefel, partneriaeth a niferoedd myfyrwyr a ragwelir ar gyfer yr holl weithgarwch a reolir gan yr ymgeisydd *(pob ymgeisydd)*</u>**

157. Mae'r tabl yn y ddalen waith **'Lleoliadau'** yn casglu gwybodaeth am yr holl weithgarwch y rhagwelir y bydd yn digwydd trwy gydol eich cynllun y mae'r

[15] Mae CCAUC yn defnyddio'r term 'Breinio' wrth gyfeirio at ddarpariaeth a roddir trwy drefniadau partneriaeth sy'n cynnwys trefniadau is-gontractio/cydweithredol – cyfeiriwch at cylchlythyr W16/13HE.

ymgeisydd yn ei reoli. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth amser llawn a rhan-amser ar lefelau ôl-radd ac israddedig ac addysg bellach ac islaw hynny. Mae'n casglu gwybodaeth am y sefydliad sy'n rhoi'r ddarpariaeth, y lleoliad, math a lefel y ddarpariaeth, niferoedd y myfyrwyr a ragwelir a phartneriaethau'r ymgeisydd. Dylid cofnodi gweithgarwch yn y DU a'r tu allan iddi yma. Casglwyd gwybodaeth am bartneriaethau doethurol ar wahân gan CCAUC, ac nid oes angen gwybodaeth am weithgarwch ymchwil ac arloesi nad yw'n cynnwys darpariaeth dysgu ac addysgu.

158. Pan ddisgwylir i bartneriaethau fod ar waith ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 ond na fyddant wedi'u cwblhau ar adeg cyflwyno'r cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad i CCAUC ym mis Mai 2024, ni ddylai sefydliadau eu cynnwys yn y cais a gyflwynir. Os cwblheir partneriaeth newydd yn 2025/26 a/neu yn 2026/27 a honno'n ymwneud â chwrs israddedig amser llawn a TAR (SAC) y mae angen cymorth i fyfyrwyr ar ei gyfer, yna bydd yn ofynnol gwneud amrywiad i'r cynllun.

159. Mae'r data sydd i'w dychwelyd yn y ddalen waith **'Lleoliadau'** yn cynnwys yr holl weithgarwch y mae'r ymgeisydd yn ei reoli. Mae hyn yn cynnwys pob dull a lefel gan gynnwys addysg bellach ac islaw hynny, a leolir yn y DU neu dramor gan gynnwys yr UE:

- y mae'r ymgeisydd yn eu darparu, yn eu rheoli ac yn eu dilysu ei hun
- mae'r ymgeisydd yn eu darparu ac yn eu rheoli ac a ddilysir gan gorff arall,
- y mae'r ymgeisydd yn eu darparu ac yn eu rheoli, a ddilysir ganddo ef ei hun, ei riant-sefydliad neu gorff arall, lle mae'n is-sefydliad i'r rhiant-sefydliad hwnnw a lle nad yw'r rhiant-sefydliad yn cynnwys y ddarpariaeth yn ei Gynllun Ffioedd a Mynediad
- y mae is-sefydliad i'r ymgeisydd yn eu darparu, lle mae'r ymgeisydd yn rhiant-sefydliad i'r is-sefydliad a lle nad yw'r is-sefydliad yn cyflwyno ei Gynllun Ffioedd a Mynediad ei hun
- y mae'r ymgeisydd yn gwneud trefniant breinio ar eu cyfer
- y mae'r ymgeisydd yn eu darparu mewn cydweithrediad â phartner, ac
- nad yw'r ymgeisydd yn eu darparu ac y mae'n eu dilysu yn unig.

160. Dylid darparu un rhes o ddata ar gyfer pob cyfuniad o sefydliad darparu, cyfeiriad lleoliad, math a lefel gweithgarwch a math o bartneriaeth. Mae'r tabl hwn wedi'i fwriadu i gael trosolwg o'r holl weithgarwch y mae'r ymgeisydd yn cymryd rhan ynddo. Felly, ni fydd gwybodaeth am bartneriaeth yn berthnasol i bob rhes, fel a ddynodir ym mharagraff 157 uchod.

161. Dylid nodi enw'r sefydliad sy'n darparu'r gweithgaredd yng **ngholofn B** a'i UKPRN yng **ngholofn C**. Os yw'r gweithgaredd yn cael ei ddarparu gan yr ymgeisydd, yna dylid nodi enw'r ymgeisydd a'r UKPRN. Os yw'r gweithgaredd yn cael ei ddarparu gan sefydliad arall trwy bartneriaeth fel trefniant breinio, is-sefydliad, trefniant dilysu neu drefniant is-gontractio neu gydweithredol arall, yna dylid rhoi enw ac UKPRN y sefydliad arall hwnnw i mewn.

162. Dylid nodi cyfeiriad y campws lle mae'r ddarpariaeth yn digwydd, neu gyfeiriad y sefydliad ei hun os mai dim ond un prif gampws sydd, yng **ngholofn D**.

163. Yng **ngholofn E**, dylid dewis y lefel astudio o'r gwymp-restr. Os nad yw'r cymhwyster sy'n cael ei astudio yn perthyn i'r lefelau sydd ar gael yn y gwymp-

restr, (ôl-radd, israddedig, addysg bellach) yna dylid teipio'r lefel i mewn yng **ngholofn E**.

164. Yng **ngholofn F**, dylid rhoi cyfanswm y myfyrwyr y rhagwelir y byddant yn ymgymryd â'r gweithgaredd i mewn.

165. Os yw'r gweithgaredd yn cael ei ddarparu neu os nad yw'n cael ei ddarparu gan bartner, dylid nodi hyn yng **ngholofn G.** Os nad yw'r gweithgaredd yn cael ei ddarparu gan bartner, yna nid oes angen cwblhau **colofnau H, I, J a K**. Os yw'r partner yn elusen neu beidio, dylid nodi hynny yng **ngholofn H** gan ddefnyddio'r gwymp-restr I/N-Eithriedig[16]/N. Dylid rhoi'r math o bartneriaeth i mewn yng **ngholofn I** gan ddefnyddio'r gwymp-restr, a dylid nodi dyddiad dechrau a gorffen y cytundeb partneriaeth yng **ngholofn J a K** yn y drefn honno.

## Rhagolygon ariannol *(ymgeiswyr newydd a cholegau sy'n rheoleiddiedig ar hyn o bryd)*

166. Dim ond colegau sy'n rheoleiddiedig ar hyn o bryd a sefydliadau sy'n gwneud cais am Gynllun Ffioedd a Mynediad am y tro cyntaf y mae gofyn iddynt gwblhau'r templed hwn**.**

167. Mae'r ddalen waith **'Gwybodaeth ariannol'** yn casglu gwybodaeth sy'n cysoni incwm ragwelir yn 2024/25 o ffioedd israddedig myfyrwyr amser llawn a TAR (SAC) sy'n hanu o'r gwledydd cartref a'r UE o dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol a roddwyd i mewn yn y ddalen waith **'Incwm Ffioedd'** â rhagolygon a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru (SABau) neu ddiweddariadau dilynol i'r rhagolygon hynny.

168. Nodir y tabl i'w gwblhau wrth roi Y neu N fel ateb i'r cwestiwn cyntaf, sy'n gofyn a yw'r Cynllun Ffioedd a Mynediad wedi cael ei baratoi ar sail rhagolygon a gyflwynwyd eisoes i Lywodraeth Cymru (SABau). **Rhaid** rhoi Y neu N i mewn yma i ddynodi pa dabl i'w gwblhau ac er mwyn i'r dilysiadau yn y ddalen waith hon weithio'n gywir. Os cwblheir y ddalen waith hon ar sail rhagolwg **a gyflwynwyd**, yna rhaid cwblhau **tabl 1**. Os cwblheir y ddalen waith hon ar sail rhagolwg **newydd**, yna rhaid cwblhau **tabl 2**.

169. Mae'r celloedd cysoni wedi cael eu poblogi dros dro â thestun sy'n dynodi addasiadau (lle y bo'n berthnasol) a oedd yn ofynnol i gysoni Cynlluniau Ffioedd a Mynediad blaenorol â rhagolygon. Ni ddylid ystyried bod y rhain yn gynhwysfawr a dylid eu trosysgrifo lle y bo'n berthnasol.

170. Cwblheir y rhagolygon gan ddilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (SABau yn unig). Pan nad yw darparwr yn SAU a reoleiddir gan CCAUC nac yn SAB rhaid iddo drafod gyda CCAUC sut y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol iddo.

171. Mae'r adran **'Dilysu Incwm'** (sydd wedi'i chynnwys yn nhabl 1 a 2) yn y ddalen waith hon yn cymharu'r cyfanswm ffioedd myfyrwyr israddedig amser llawn a TAR (SAC) sy'n hanu o'r gwledydd cartref a'r UE dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol a ragwelir yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad o'r ddalen waith **'Incwm Ffioedd'** â'r rhagolwg a gyflwynwyd i CCAUC/Llywodraeth Cymru (tabl 1) neu'r

[16] Elusennau Eithriedig (CC23) / Prif reolydd elusennau eithriedig: memorandwm cyd-ddealltwriaeth

rhagolwg newydd (tabl 2) ac yn cyfrifo'r gwahaniaeth sy'n cael ei arddangos fel yr amrywiant. Gofynnir i ymgeiswyr restru eitemau cysoni sy'n esbonio'r amrywiant. Unwaith y bydd eitemau cysoni a'r incwm a ragwelir cysylltiedig wedi'u cwblhau, dylai ffigwr terfynol y tabl fod yn hafal i ddim. Os na fydd, yna bydd neges yn ymddangos mewn coch ar ochr dde’r tabl; fodd bynnag caniateir goddefiant o +/- £5k yn y dilysiadau. Cesglir incwm ffioedd mewn £ yn y ddalen waith **'Incwm ffioedd'** ac mewn £'000oedd yn y ddalen waith **'Gwybodaeth Ariannol'**. Mae data o'r ddalen waith **'Gwybodaeth Ariannol'** a'r ddalen waith **'Incwm ffioedd'** wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf cyn i unrhyw ddilysiad gael ei gymhwyso.

172. Os yw'r ymgeisydd yn darparu data rhagolygon newydd ac felly'n cwblhau tabl 2, yna dylid darparu gwybodaeth sy’n ymwneud ag incwm, gwariant, gwarged a datganiad cyfunol o lifoedd arian parod yn y celloedd melyn ar gyfer pob blwyddyn a ddynodir. Mae’r canllawiau ar gyfer cwblhau'r eitemau hyn i’w cael yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

173. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ddiffiniadau o ragolygon ariannol a ddefnyddir yn y ddalen waith hon, cysylltwch â'r Tîm Cynaliadwyedd a Sicrwydd yn assurance@hefcw.ac.uk. Bydd y manylion cyswllt hyn yn cael eu disodli gan y rhai ar gyfer y CADY o 1 Awst 2024, a bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu unwaith y byddant ar gael.

### Rhagolwg o fuddsoddi incwm Cynllun Ffioedd a Mynediad *(ymgeiswyr newydd yn unig)*

174. Mae'r tabl yn y ddalen waith **'Buddsoddi ffioedd'** yn nodi buddsoddiad a neilltuir i gyflawni pob amcan, i werthuso Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, ar gyfer ymgyrraedd yn ehangach ac ar gyfer cymorth ariannol.

175. Yn adrannau a) a b) o'r tabl hwn, rhaid i'r sefydliad gynnwys ei fuddsoddiad a ragwelir i gyflawni pob amcan fel a nodir yn Atodiad A wrth y cais ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad.

176. **Rhaid i fuddsoddiad i gyflawni amcanion i wella cyfle cyfartal ymwneud dim ond â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch.**

177. Cesglir y buddsoddiad a ragwelir ar werthuso effeithiolrwydd Cynlluniau Ffioedd a Mynediad yn adran (c) ac incwm sy'n cael ei wario ar Ymgyrraedd yn Ehangach yn adran (e).

178. Bydd gweithgareddau cymorth ariannol i fyfyrwyr yn rhan o gyfanswm buddsoddiad mewn amcanion i gefnogi cyfle cyfartal a/neu hybu addysg uwch (fel a nodir yn (a) a (b)). Mae adran (f) yn gofyn i'r ymgeisydd nodi ar wahân y buddsoddiad a ragwelir mewn gweithgareddau cymorth ariannol i fyfyrwyr **sydd eisoes wedi'i gynnwys** yn (a) a (b) a'r niferoedd disgwyliedig o fyfyrwyr a gefnogir.

179. Rhaid i chi sicrhau bod incwm y rhagwelir y bydd yn cael ei fuddsoddi mewn amcanion sy'n ymwneud â chyfle cyfartal fod yn fwy na'r hyn a fuddsoddir mewn amcanion i hybu addysg uwch.

**Rhesymau dros gasglu data yn Atodiad B**

180. Mae'r data a ddychwelir ar y **ddalen waith 'Incwm ffioedd'** yn darparu cyfanswm yr incwm ffioedd sydd ar gael i'w fuddsoddi ac mae hefyd yn galluogi CCAUC i asesu'r lefelau ffioedd cyfartalog a godir ar fyfyrwyr FTUG a TAR (SAC) sy'n hanu o'r gwledydd cartref a'r UE o dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol.

181. Bydd data a ddychwelir ar y ddalen waith **'Lleoliadau'** yn cael ei ddefnyddio i ddarparu data i'w ystyried yn asesiad ansawdd CCAUC; i fonitro'r trefniadau partneriaeth sydd ar waith yn y DU, ac i fonitro trefniadau partneriaeth a champws sydd ar waith dramor.

182. Bydd data a ddychwelir ar y ddalen waith **'Gwybodaeth ariannol'** yn cael ei ddefnyddio wrth asesu cynaliadwyedd ariannol.

183. Mae'r data a ddychwelir ar y ddalen waith **'Buddsoddi ffioedd'** yn galluogi CCAUC i asesu lefel yr incwm ffioedd gan fyfyrwyr FTUG a TAR (SAC) sy'n hanu o'r gwledydd cartref ac o'r UE o dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol a fydd yn cael ei buddsoddi mewn cyfle cyfartal, hybu addysg uwch, Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach, gwerthuso effeithiolrwydd Cynlluniau Ffioedd a Mynediad a chymorth ariannol i fyfyrwyr.

## Sut y bydd CCAUC yn rheoli'r broses Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

184. Mae'r wybodaeth ganlynol yn nodi'r prosesau ar gyfer sefydliad sy'n cyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad a'r broses gymeradwyo gan CCAUC.

185. Dylai'r sefydliad gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
- Gwybodaeth reoleiddiol sy'n dangos bod y sefydliad yn gymwys i ymuno â'r sector rheoleiddiedig yng Nghymru.
- Ei ymrwymiad manwl i wella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch.
- Lle y bo'n berthnasol, tystiolaeth atodol i ategu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.
- Tystiolaeth o gymeradwyaeth y corff llywodraethu.

186. Bydd y sefydliad yn cael dau dempled:
- Ffurflen gais ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad, gan gynnwys ffurflen cymeradwyaeth corff llywodraethu.
- Dogfen Excel i ategu gwybodaeth a ddarperir yn y wybodaeth reoleiddiol a'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.

Ar gyfer sefydliadau sy'n ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad am y tro cyntaf, bydd CCAUC yn darparu ffurflen gais safonol, ar gais gan regulationadvice@hefcw.ac.uk. Bydd y manylion cyswllt hyn yn cael eu disodli gan y rhai ar gyfer y CADY o 1 Awst 2024, a bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu unwaith y byddant ar gael.

### Cyflwyno

187. Corff llywodraethu'r sefydliad sy'n gyfrifol am Gynllun Ffioedd a Mynediad a rhaid iddo gymeradwyo'r cais cychwynnol i CCAUC a chais terfynol i ailgyflwyno cynllun, lle mae'r cynllun wedi cael ei ddiwygio yn dilyn trafodaethau gyda

CCAUC. Rydym yn disgwyl i gynrychiolwyr myfyrwyr fod yn rhan o'r broses ddatblygu a chymeradwyo honno. Efallai y bydd y sefydliad yn dymuno sicrhau awdurdod dirprwyedig gan ei gorff llywodraethu, ar adeg gynnar, ac os yw'n briodol.

188. Dylai fod gan bob ffeil a gyflwynir i CCAUC enwau ffeiliau sydd wedi'u labelu'n glir ag enw'r sefydliad, disgrifiad o'r ffeil a'r dyddiad cyflwyno. Cyflwynwch y canlynol os gwelwch yn dda:

- **Atodiad A** mewn fformat Word
- **Atodiad B** mewn fformat Exce,
- Cymeradwyaeth y corff llywodraethu mewn fformat PDF.

## Asesiad CCAUC o Gynlluniau Ffioedd a Mynediad

189. Bydd ceisiadau am Gynlluniau Ffioedd a Mynediad a dadansoddiad cychwynnol CCAUC ohonynt yn cael eu hystyried gan Bwyllgor a Chyngor Rheoleiddio CCAUC.[17] Bydd CCAUC yn rhoi adborth cychwynnol i sefydliadau, gan ystyried cyngor y Pwyllgor Rheoleiddio.

190. Bydd CCAUC yn asesu'r ceisiadau am Gynlluniau Ffioedd a Mynediad yn erbyn y meini prawf canlynol:

Cadernid y dystiolaeth fel y mae'n ymwneud â:

**Gwybodaeth reoleiddiol**

- bod yn sefydliad yng Nghymru
- darparu addysg uwch
- bod yn elusen
- hyfywedd ariannol
- trefnu a rheoli materion ariannol yn effeithiol, ac
- ansawdd yr addysg a ddarperir ganddo neu a ddarperir ar ei ran.

Cadernid ac ansawdd y dystiolaeth fel y mae'n ymwneud â'r canlynol:

**Cynlluniau Ffioedd a Mynediad**

- darparu gwybodaeth glir am lefelau ffioedd, gan sicrhau nad yw'r ffioedd yn uwch na'r lefelau ffioedd y caniateir eu codi
- esbonio'n llawn sut y mae partneriaeth gyda myfyrwyr wedi goleuo datblygiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad
- adnabod a chefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i wella cyfle cyfartal mewn addysg uwch
- pennu amcanion uchelgeisiol, cyraeddadwy sy'n dangos bwriadau'r sefydliad i wella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch
- lle y bo'n berthnasol, neilltuo cyfran resymol o incwm ffioedd i wella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch
- rhoi manylion trefniadau llywodraethu ac ymgysylltu â myfyrwyr, gan gynnwys sut y bydd y sefydliad yn monitro ac yn gwerthuso'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.

[17] www.hefcw.ac.uk/cy/amdanom-ni/llywodraethu/pwyllgorau/

## Proses CCAUC ar gyfer cymeradwyo a gwrthod Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

191. Unwaith y bydd y prosesau dadansoddi ac ailadrodd ar gyfer Cynlluniau Ffioedd a Mynediad gyda'r sefydliadau wedi'u cwblhau, bydd CCAUC yn cymeradwyo neu'n symud i wrthod cynlluniau.

192. Ni fydd CCAUC yn cymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad nes ei fod wedi'i argyhoeddi bod y sefydliad wedi darparu gwybodaeth reoleiddiol briodol ac wedi dangos yn foddhaol ei ymrwymiad i wella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch.

### Cymeradwyo a chyhoeddi

193. Bydd CCAUC yn cadarnhau cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad trwy ysgrifennu at gorff llywodraethu'r sefydliad.

194. Lle mae'r sefydliad yn llwyddiannus gyda'i gais, rhaid iddo gyhoeddi elfennau gofynnol ei gynllun cymeradwy ar ei wefan, gan gynnwys dyddiad cymeradwyaeth CCAUC a'r dyddiad cyhoeddi.[18] Rydym yn disgwyl i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad (rhan 2 o'r ffurflen gais) gael ei gyhoeddi ar yr un dudalen we â'r un lle nodir ffioedd dysgu. Gellir cysylltu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy â thudalennau gwe eraill yn ôl yr angen. Byddai'n arfer da cynnwys crynodeb o'r cynllun ar y dudalen we gyda'r ddolen. Rhaid rhannu'r ddolen i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad cyhoeddedig gyda CCAUC o fewn 14 diwrnod i'w gymeradwyo. Rhaid cyfleu unrhyw newidiadau i'r ddolen i CCAUC o fewn saith diwrnod ar ôl i'r newid gael ei wneud.

195. Gellir cyflwyno ceisiadau ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad i CCAUC yn arddull gorfforaethol y sefydliad, gan gydnabod y bydd y fersiwn a gymeradwywyd yn cael ei chyhoeddi ac yn rhan o ddogfennaeth gorfforaethol y sefydliad. Fodd bynnag, **ni ddylai'r** testun cyhoeddedig fod yn wahanol mewn unrhyw ffordd i'r testun yn y cynllun a gymeradwywyd gan CCAUC.

196. Nid oes gofyniad i gyhoeddi unrhyw nodiadau cyfarwyddyd gan CCAUC, gan gynnwys y rhai sy'n rhan o'r ffurflen gais gan y gallai hyn achosi dryswch i'r darllenydd cyffredinol. Dylid ysgrifennu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad fel y gellir ei ddeall fel dogfen ar ei phen ei hun.

197. Bydd CCAUC yn hysbysu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) am Gynlluniau Ffioedd a Mynediad cymeradwy a therfynau ffioedd israddedig amser llawn trwy gydol cyfnod y Cynllun Ffioedd a Mynediad y cytunwyd arno. Hefyd, bydd CCAUC yn cadarnhau pa elusennau sy'n darparu cyrsiau israddedig amser llawn ar ran sefydliadau rheoleiddiedig gyda'r SLC.

### Gwrthod

198. Os nad oes gan y sefydliad Gynllun Ffioedd a Mynediad wedi'i gymeradwyo yn dilyn y broses a nodir uchod, gall barhau â'i ddeialog â CCAUC a/neu fod yn ddarostyngedig i'r prosesau a nodir isod.

---

[18] Mae'r canllawiau hyn yn dynodi bod gwybodaeth reoleiddiol (adran un) y Cynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer CCAUC/CADY ac ar gyfer cyhoeddi.

199. Os nad yw CCAUC wedi'i argyhoeddi bod y sefydliad yn bodloni ei feini prawf ar gyfer cymeradwyo cynllun ar ôl i gyfnod ailadrodd rhesymol gael ei gwblhau, bydd yn ysgrifennu at y corff llywodraethu (at Gadeirydd a Chlerc y corff llywodraethu gan gynnwys copi at y Swyddog Atebol) yn nodi'r rhesymau dros ei fwriad arfaethedig i wrthod cynlluniau.

200. Ni fydd CCAUC yn cymeradwyo Cynllun Ffioedd a Mynediad lle:

- ystyrir bod gwybodaeth reoleiddiol a ddarparwyd gan y sefydliad yn annigonol[19]
- mae terfynau ffioedd y sefydliad yn fwy na'r terfyn ffioedd perthnasol uchaf a bennir yn y ddeddfwriaeth[20], neu
- nid yw corff llywodraethu sefydliad wedi cadarnhau ei fod yn cymeradwyo'r cynllun.

201. Ni fydd CCAUC yn cymeradwyo Cynllun Ffioedd a Mynediad lle mae'n ystyried nad yw'r holl feini prawf ar gyfer asesu'r Cynlluniau Ffioedd a Mynediad wedi cael eu bodloni'n llawn ac yn foddhaol.

202. Os yw CCAUC yn bwriadu gwrthod Cynllun Ffioedd a Mynediad rhaid iddo roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu'r sefydliad. Mae diagram sy'n nodi camau'r broses cyflwyno hysbysiad i'w weld ar ein gwefan.

**Ymadael â'r system reoleiddio**

203. Mae tair ffordd y gall sefydliad rheoleiddiedig ymadael â'r system reoleiddio, gan gynnwys:

- peidio â gwneud cais am gymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad
- peidio â chael cymeradwyo cais am gynllun, neu
- cael tynnu cynllun cymeradwy yn ôl.

204. Bydd dyletswydd statudol ar CCAUC i dynnu cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad yn ôl lle nad yw wedi'i argyhoeddi mwyach bod y sefydliad yn cyfateb â'r diffiniad o sefydliad rheoleiddiedig. Bydd gan CCAUC bwerau i dynnu ei gymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad yn ôl mewn amgylchiadau eraill.[21]

205. Pan fydd sefydliad rheoleiddiedig yn ymadael â'r system:

- mae pwerau CCAUC mewn perthynas ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, y sefydliad yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â chyrsiau dynodedig y sefydliad.
- gall CCAUC roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu'r sefydliad gymryd (neu beidio â chymryd) camau penodol at ddiben ymdrin â, neu atal methiant i gydymffurfio â, gofyniad cyffredinol ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy os oedd y Cynllun Ffioedd a Mynediad mewn grym ar adeg y methiant.
- bydd yn ofynnol i gorff llywodraethu'r sefydliad sicrhau bod ffioedd, ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau o fewn y cyfnod y mae ei gynllun

[19] Gwybodaeth am fod yn sefydliad yng Nghymru, darparu addysg uwch a bod yn elusen sy'n ariannol hyfyw gyda threfniadau cadarn ar gyfer trefnu a rheoli ei faterion ariannol ac ansawdd yr holl addysg a ddarperir ganddo, neu ar ei ran.
[20] Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015
[21] Mae pwerau ymyrryd wedi'u nodi mewn Datganiad Ymyrryd.

ffioedd yn ymwneud ag ef, yn parhau i gydymffurfio â'r terfyn ffioedd perthnasol.
- bydd yn ofynnol i gorff llywodraethu'r sefydliad sicrhau nad yw myfyrwyr yn colli trefniant diogelu ffioedd a bod ffioedd, ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau o fewn cyfnod ei Gynllun Ffioedd a Mynediad diweddaraf, yn parhau i gydymffurfio â'r terfyn ffioedd perthnasol trwy gydol cyrsiau myfyrwyr.

## Amrywio Cynllun Ffioedd a Mynediad

206. Tra bo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad mewn grym[22], mae'n ofynnol i sefydliadau rheoleiddiedig roi gwybod i CCAUC ar unwaith am unrhyw newidiadau i'w statws elusennol, eu prif leoliad neu weithgareddau a allai effeithio ar eu gallu i fodloni'r meini prawf o dan Adran 2(3) o Ddeddf 2015.

207. Lle ceir unrhyw newidiadau i Gynlluniau Ffioedd a Mynediad cymeradwy a'u hymrwymiadau, dylai sefydliadau rheoleiddiedig drafod goblygiadau'r newidiadau hyn gyda CCAUC a'u cynrychiolwyr myfyrwyr ar y cyfle cynharaf a chyn i unrhyw newidiadau gael eu gwneud. Gall newidiadau o'r fath gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:
- newidiadau i ffioedd dysgu
- darpariaeth mewn lleoliadau newydd
- trefniadau newydd neu ddiwygiedig ar gyfer addysg uwch a ddarperir ar ran sefydliadau, neu
- lle mae corff sy'n darparu dysgu ac addysgu ar ran sefydliadau yn peidio â bod yn elusen tra bo'r Cynllun Ffioedd a Mynediad mewn grym.

208. Bydd gofyn cael cytundeb CCAUC ar gyfer amrywiadau i Gynlluniau Ffioedd a Mynediad.

209. Rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wnaed mewn cynlluniau a gymeradwywyd gan CCAUC ac ni ellir eu hamrywio.

210. Pan fo cynllun a gyhoeddwyd yn cael ei amrywio gyda chymeradwyaeth CCAUC, rhaid i'r sefydliad gyhoeddi ei gynllun diwygiedig a chynnwys dyddiad diwygiedig cymeradwyaeth CCAUC a'r dyddiad cyhoeddi diwygiedig. Dylid sicrhau bod fersiwn o'r cynllun gwreiddiol ar gael bob amser pan ofynnir amdano. Pan na fydd amrywiad i gynllun yn cael ei gymeradwyo gan CCAUC, bydd y cynllun cyhoeddedig presennol yn sefyll.

211. Darperir canllawiau manwl ar amrywio Cynllun Ffioedd a Mynediad ar ein gwefan.

212. Dylai amrywiadau sy'n cynnwys newidiadau i lefelau ffioedd gael eu gwneud cyn i fyfyrwyr gael eu derbyn ar gwrs. Lle mae'r sefydliad yn ceisio amrywiad gyda golwg ar ehangu'r cyrsiau cymwys a gynigir, ni ddylid derbyn myfyrwyr ar y cyrsiau nes bod yr amrywiad wedi'i gymeradwyo gan CCAUC a bod y cyrsiau a'r ffioedd cytunedig wedi cael eu cadarnhau. Rhaid i sefydliadau sicrhau bod

[22] Y cyfnod y mae cynllun "mewn grym" yw'r cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff ei gymeradwyo ac sy'n dod i ben: naill ai'r diwrnod y mae'r cyfnod y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef yn dod i ben (h.y. diwedd y flwyddyn academaidd y mae'r cynllun yn cael effaith mewn perthynas â hi); neu ddyddiad hysbysiad tynnu'n ôl o dan adran 38 neu 39, pa un bynnag o'r digwyddiadau hynny yw'r cynharaf

ymrwymiadau i fyfyrwyr ynghylch eu ffioedd yn cael eu hanrhydeddu ac yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

## Monitro cydymffurfiaeth â Chynllun Ffioedd a Mynediad a gwerthuso eu effeithiolrwydd

213. Unwaith y maent wedi dod yn rheoleiddiedig, rhaid i sefydliadau fonitro’r modd y cydymffurfir â gofynion cyffredinol a lefelau ffioedd Cynllun Ffioedd a Mynediad, yn ogystal â monitro perfformiad yn erbyn yr amcanion a nodir yn y cynllun.

214. Dylai cyrff llywodraethu wneud trefniadau priodol i fonitro’r modd y cydymffurfiaeth â’r Cynllun Ffioedd a Mynediad a’i berfformiad. Wrth wneud hynny, lle mae agweddau ar berfformiad wedi’u dirprwyo, bydd angen prosesau clir ar gyfer darparu sicrwydd i'r corff llywodraethu, er mwyn ei alluogi i wneud penderfyniadau gwybodus a chyflawni ei ddyletswydd mewn modd amserol. Rydym yn cydnabod efallai na fydd y corff llywodraethu’n ymwneud â’r manylion gweithredol ac y gellir dirprwyo'r lefel hon o fanylder i bwyllgor arall. Fodd bynnag, bydd angen prosesau clir lle darperir sicrwydd i'r corff llywodraethu i'w alluogi i wneud penderfyniadau gwybodus a chyflawni ei ddyletswydd mewn modd amserol.

## Cydymffurfio parhaus

215. Rydym wedi integreiddio elfen gydymffurfio’r broses Cynlluniau Ffioedd a Mynediad â'r broses Datganiad Sicrwydd Blynyddol, gan felly sicrhau dull cyson o ymdrin â'n prosesau rheoleiddio. Wrth lofnodi'r Datganiad Sicrwydd Blynyddol, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu gadarnhau:
   - nad oes unrhyw ffioedd ar gyfer cwrs rheoleiddiedig wedi mynd y tu hwnt i'r terfyn ffioedd perthnasol fel a nodir yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad.
   - bod y sefydliad wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â gofynion cyffredinol y Cynllun Ffioedd a Mynediad.
   - bod y sefydliad wedi cymryd pob cam rhesymol i gynnal lefelau buddsoddi, gan gynnwys cynnal y rhaniadau rhwng buddsoddiad i gefnogi cyfle cyfartal a hybu addysg uwch yn ogystal â’r buddsoddiad mewn cymorth i fyfyrwyr.

216. Ochr yn ochr â'r datganiad, mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno i CCAUC y ddogfennaeth a rannwyd ganddynt gyda’u Corff Llywodraethu i'w alluogi i gadarnhau'r ymrwymiadau yn y Datganiad Sicrwydd Blynyddol. Bydd y ffurflenni hyn yn goleuo ymgysylltiad sefydliadol CCAUC.

217. Wrth asesu hyn, byddwn yn disgwyl deall mewn cryn fanylder:
   - y grwpiau neu'r strwythurau pwyllgorau sy'n monitro'r cynllun yn y flwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi a sut y maent yn asesu’r modd y mae’r sefydliad yn cydymffurfio â'r cynllun
   - i ba raddau yr ymgysylltwyd â'r corff llywodraethu, a hefyd
   - y modd y cafodd myfyrwyr eu cynnwys mewn prosesau, gan gynnwys myfyrwyr lle darperir addysg ar ran y sefydliad.

## Gwerthuso effeithiolrwydd Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

218. Mae dyletswydd ar CCAUC i werthuso effeithiolrwydd Cynlluniau Ffioedd a Mynediad. Er mwyn goleuo'r ddyletswydd hon, bydd gofyn i sefydliadau werthuso

effeithiolrwydd buddsoddiad i gyflawni amcanion Cynlluniau Ffioedd a Mynediad. Wrth wneud hynny, rydym yn disgwyl i sefydliadau:

- fod â fframwaith i werthuso effeithiolrwydd buddsoddiad i gyflawni amcanion Cynlluniau Ffioedd a Mynediad. Rydym yn disgwyl i'r gwerthusiad hwn gael ei ystyried fel rhan o ddull gwerthuso ar draws y sefydliad cyfan,
- bod ag eglurder ar gyfer grwpiau a phwyllgorau yn y sefydliad wrth werthuso'r cynllun,
- bod â phrosesau ar gyfer gweithredu newid yn dilyn gwerthusiad gan gynnwys myfyrdodau ynghylch gwersi a ddysgwyd ac adnabod arfer da,
- rhesymeg glir i nodi pam y defnyddiwyd unrhyw ddulliau gwerthuso penodol mewn unrhyw flwyddyn academaidd benodol.

219. Yn 2019, rhoddodd CCAUC gomisiwn i Advance HE i adolygu fframweithiau gwerthuso a ddefnyddir gan sefydliadau yng Nghymru ac i ddarparu arweiniad ar ffyrdd effeithiol o werthuso Cynlluniau Ffioedd a Mynediad yn y dyfodol. Mae adolygiad Advance HE i'w weld ar wefan CCAUC. Rydym yn disgwyl i bob **sefydliad rheoleiddiedig** ymgyfarwyddo â chanlyniadau'r adolygiad. Yn arbennig, rydym yn disgwyl i bob sefydliad ddatblygu fframweithiau gwerthuso sy'n ystyried yr argymhellion ac yn cyd-fynd â'r egwyddorion yn yr adroddiad.

220. Ochr yn ochr â'r broses sicrwydd flynyddol, mae'n ofynnol i **sefydliadau rheoleiddiedig** gyflwyno dogfennaeth a gynhyrchwyd yn fewnol ac a drafodwyd gyda grwpiau mewnol perthnasol ynghylch gwerthuso effeithiolrwydd buddsoddiad i gyflawni amcanion Cynlluniau Ffioedd a Mynediad, gan gynnwys gwerthuso effeithiolrwydd y cymorth perthnasol i fyfyrwyr. Darperir canllawiau i sefydliadau ynghyd â disgwyliadau ynghylch cyflwyno ffurflenni yn agosach at yr amser ond mae Pwyllgor Rheoleiddio CCAUC wedi cynghori bod CCAUC yn rhoi sylw arbennig i'r meysydd canlynol fel rhan o'i ddyletswydd i werthuso Cynlluniau Ffioedd a Mynediad:

- Cadw myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Cynyddu cyfran y myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg
- Gwella cyflogadwyedd a deilliannau gyrfa myfyrwyr yng Nghymru
- Adnabod arfer effeithiol wrth gyflawni amcanion Cynlluniau Ffioedd a Mynediad.

221. Rydym hefyd yn disgwyl deall yn glir mewn ffurflenni sut y mae'r brifysgol yn cyflawni ac yn adeiladu ar ei Datganiad o Fwriad Ymgyrraedd yn Ehangach, gan gysoni â phontio, a rhoi cymorth gyda phontio, o weithgarwch Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach a chefnogi grwpiau blaenoriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach i a thrwy addysg uwch.

222. Bydd perfformiad sefydliadol yn erbyn mesurau cenedlaethol CCAUC yn goleuo ein hymgysylltiad a'n hadolygiad risg sefydliadol.

223. Gofynnir i sefydliadau sy'n ymgeisio am Gynllun Ffioedd a Mynediad am y tro cyntaf ddarparu tystiolaeth i sicrhau CCAUC bod ganddynt drefniadau i fonitro'r modd y cydymffurfir â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad a gwerthuso eu heffeithiolrwydd pe baent yn dod yn rheoleiddiedig. Bydd hyn yn cael ei oleuo trwy ddeialog gyda'r sefydliad cyn ei gais.

224. Rydym yn disgwyl i bob gwerthusiad gynnwys asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb a fydd yn goleuo prosesau cynllunio yn y dyfodol. Gall CCAUC ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyflwyno eu hasesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb i'w alluogi i ddeall sut y mae'r sefydliad wedi ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth gyflawni ei amcanion.

## Asesu effaith ein polisïau

225. Rydym wedi cynnal asesiad effaith integredig i helpu i ddiogelu yn erbyn gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg o fewn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at yr egwyddor datblygu cynaliadwy, nodau a ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cysylltwch â equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau o’r effaith. Bydd y manylion cyswllt hyn yn cael eu disodli gan y rhai ar gyfer y CADY o 1 Awst 2024, a bydd rhagor o fanylion yn cael eu cyhoeddi unwaith y byddant ar gael.

226. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (adran 3, 2 (a)), yn diffinio grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn perthynas ag addysg drydyddol fel grwpiau o fyfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol berthnasol yng Nghymru[23] o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol ac mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi[24] fel grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol wrth wneud ymchwil ac arloesi yng Nghymru o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol.

227. Fe wnaethom gynnwys cwestiynau penodol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein hymgynghoriad ar ganllawiau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad 2017/18, y mae'r canllawiau hyn yn seiliedig arnynt. Rhoddodd CCAUC anogaeth i ddarparu ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn nodi unrhyw effeithiau negyddol posibl ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, y Gymraeg a'r nodau llesiant, fel y’u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae CCAUC yn monitro data a thystiolaeth ar unigolion â nodweddion gwarchodedig a'r Gymraeg yn flynyddol i oleuo’r modd y mae’n gweithredu polisïau a’i arfer. Mae CCAUC yn parhau i groesawu tystiolaeth a/neu gyngor ychwanegol i oleuo datblygiad a’r modd y gweithredir ei bolisi Cynllun Ffioedd a Mynediad. E-bostiwch unrhyw dystiolaeth a/neu gyngor ychwanegol i regulationadvice@hefcw.ac.uk. Bydd y manylion cyswllt hyn yn cael eu disodli gan y rhai ar gyfer y CADY o 1 Awst 2024, a bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu unwaith y byddant ar gael.

228. Yn dilyn ymgynghori, fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 (CCS) ym mis Mawrth 2020. Mae ein CCS yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer CCAUC ac addysg uwch yng Nghymru a sut y byddwn yn cydweithio â darparwyr a phartneriaid eraill i'w cyflawni. Dylai sefydliadau ystyried y blaenoriaethau hyn a'r blaenoriaethau hynny a nodir yn eu CCS eu hunain wrth bennu eu hamcanion i gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Adolygodd CCAUC ei CCS ym mis Mai 2022, i ystyried effaith Covid-19 yn unol â chyngor gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a sefydlu'r CADY a symud swyddogaethau addysg uwch i'r Comisiwn newydd.

[23] Diffinnir addysg drydyddol berthnasol fel "cyrsiau addysg drydyddol a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru".
[24] Deddf ADY (Cymru) 2022 Rhan 1, is-adran 3 Hybu cyfle cyfartal, 2(b).

Rydym yn cydnabod y bydd yr holl sefydliadau rheoleiddiedig yn gwneud hynny hefyd.

229. O 31 Mawrth 2021, rhaid i gyrff cyhoeddus a enwir yng Nghymru roi sylw dyladwy i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, fel y'i nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Er nad yw CCAUC, na darparwyr addysg uwch, yn gyrff a enwir ar hyn o bryd, mae CCAUC wedi ymrwymo i 'weithredu o fewn ysbryd' y ddyletswydd, fel a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn disgwyl i sefydliadau rheoleiddiedig wneud yr un modd.

230. Mae CCAUC yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a chyfartal i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2017. Mae ein cynllun gweithredu ar gyfer 2023 yn nodi sut yr ydym yn cydymffurfio â'r safonau hyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan CCAUC.

231. Nid CCAUC yw rheoleiddiwr cydymffurfiaeth sefydliadau â Safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi datblygiad addysg uwch cyfrwng Cymraeg ac yn disgwyl i ddarparwyr addysg uwch gynyddu ceisiadau i gyrsiau cyfrwng Cymraeg a chofrestriadau arnynt.

232. Mae cyfleoedd i astudio yn y Gymraeg yn rhan unigryw a phwysig o addysg uwch yng Nghymru ac wrth ddatblygu Cynlluniau Ffioedd a Mynediad, dylai sefydliadau ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae ein proses asesu effaith yn ystyried ein dyletswyddau yn hyn o beth.

233. Nodwyd fod y canlynol yn cael effeithiau cadarnhaol yn ein proses asesu effaith:
- camau i gyd-fynd â gofynion rheoleiddio newydd
- y pwyslais ar fuddsoddi i gefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol,
- y ffocws ar flaenoriaethu llwybrau mewn astudiaethau cyfrwng Cymraeg
- annog sefydliadau i bennu amcanion hirdymor, ac
- annog sefydliadau i ystyried cynorthwyo grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i astudio ar lefel ôl-radd.

234. Roeddem wedi nodi ffocws deddfwriaethol y Cynllun Ffioedd a Mynediad ar fewnbynnau fel effaith niwtral ac fe wnaethom fwydo hynny i mewn i'n tystiolaeth yn ystod hynt y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ar y pryd drwy'r Senedd.

## Atodiad: Rhwymedigaethau sefydliadau rheoleiddiedig

Wrth ymgeisio'n llwyddiannus am gynllun ffioedd a mynediad mae'n ofynnol i holl gyrff llywodraethu sefydliadau rheoleiddiedig:

- sicrhau nad yw ffioedd cyrsiau rheoleiddiedig yn fwy na'r terfyn ffioedd perthnasol;
- cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir yn gyfreithlon gan CCAUC;
- ystyried unrhyw ganllawiau gan CCAUC wrth gydymffurfio â chyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan CCAUC mewn perthynas â chydymffurfio â therfynau ffioedd;
- cydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun ffioedd a mynediad cymeradwy;
- cydweithredu â CCAUC o ran arfer ei ddyletswyddau i fonitro a gwerthuso’r modd y cydymffurfir â’r cynllun a’i effeithiolrwydd;
- ystyried canllawiau CCAUC ynghylch ansawdd;
- ystyried cyngor mewn perthynas â darpariaeth sydd, neu sy'n debygol o ddod, yn annigonol o ran ansawdd;
- cydweithredu â dyletswydd CCAUC i asesu ansawdd ei addysg ac addysg a ddarperir gan ddarparwr allanol ar ei ran;
- cydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir gan y cod rheolaeth ariannol;
- cydymffurfio â chyfarwyddyd mewn perthynas â methu â chydymffurfio â'r cod;
- ystyried unrhyw ganllawiau a gynhwysir yn y cod rheolaeth ariannol;
- cydweithredu â swyddogaethau CCAUC mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â'r cod;
- cydweithredu â dyletswyddau CCAUC i fonitro’r modd y cydymffurfir â'r cod;
- rhoi ystyriaeth i hybu cyfle cyfartal;
- rhoi ystyriaeth i hybu addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg;
- rhoi ystyriaeth ddyladwy i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, yn enwedig mewn perthynas ag amddiffyn dysgwyr, ymgysylltu â dysgwyr, cyfle cyfartal, a chefnogi a hybu lles ei fyfyrwyr a'i staff.